Arolygiaeth Prawf EM

# **Adroddiad Blynyddol:**
# arolygiad o wasanaethau troseddwyr ifanc (2019-2020)

TACHWEDD 2020

# Cynnwys

*Rhagarweiniad y Prif Arolygydd* ........ 4
*Ffeithiau cyd-destun* ........ 10
*Ein harolygiadau ieuenctid 2019-2020* ........ 11
*Sgoriau arolygu 2019-2020* ........ 12
*Y darlun mawr* ........ 13
*Anghenion plant yn y system cyfiawnder ieuenctid* ........ 15
*Covid-19* ........ 23
*Canfyddiadau arolygu cyn Covid-19* ........ 25
*Dedfrydau allan-o-lys* ........ 34
*Atodiad 1: Cymharu data achosion* ........ 40
*Atodiad 2: Disgrifiad o Dîm Troseddwyr Ifanc* ........ 45
*Atodiad 3: Disgrifiad o'r fethodoleg arolygu gwasanaethau ieuenctid* ........ 46
*Atodiad 4: Tabl sgorio ar gyfer arolygiadau 2018-19 a 2019-20* ........ 49

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau cyfunol ein harolygiadau o'r Timau Troseddwyr Ifanc a wnaed gan y tîm arolygu ieuenctid dan arweiniad Alan MacDonald, wedi'i gynorthwyo gan dîm o staff gweithredol, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol. Y cyfarwyddwr a fu'n gyfrifol am yr adroddiad hwn yw Dr Louise Falshaw. Hoffem ddiolch i bawb a gymrodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiadau y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arnynt. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad ni fyddai'r arolygiadau hyn, na'r adroddiad, wedi bod yn bosib.

Cofiwch drwy gydol yr adroddiad hwn fod enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i:
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation
Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

ISBN - 978-1-84099-966-2

# Rhagarweiniad y Prif Arolygydd

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn eithriadol i ni gyd ac nid oedd unrhyw amheuaeth y byddai'r anawsterau yn sgîl haint Covid-19 yn effeithio ar wasanaethau troseddwyr ifanc a'r System Cyfiawnder Ieuenctid yn gyffredinol.

Fel gymaint o bobl eraill, bu'n rhaid i ni yn yr Arolygiaeth ddeall ac addasu i'r newidiadau wrth iddynt ddigwydd. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gwneud hyn, ond er hynny nid ydym yn hunan-fodlon; bydd yr effeithiau hirdymor ar y gwasanaethau – ac yn enwedig ar y plant – yn hynod ddwfn.

Penderfynwyd gohirio'r holl ymweliadau safle ym mis Mawrth, a chofleidio'r byd rhithiol. Rydyn ni wedi gallu cynnal arolygiadau o bell ers mis Mehefin ynghyd ag arolygiad thematig o effaith gyffredinol Covid-19 ar Dimau Troseddwyr Ifanc (YOT) ar draws Cymru a Lloegr – sydd i gyd wedi dysgu gwersi pwysig i ni.

### Tueddiadau diweddar mewn cyfiawnder ieuenctid

Mae'r 15 mis diwethaf wedi gweld y tueddiadau mewn cyfiawnder ieuenctid, a fu'n amlwg dros y deng mlynedd diwethaf, yn parhau. Mae nifer y plant dan 18 oed sy'n dod i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf, drwy euogfarn neu rybuddiad, yn parhau i ostwng a bellach ond yn gyfran fach iawn o boblogaeth y grŵp oed hwn – ymhell o dan 1% o'r holl bobl ifanc 10-17 oed ym mhob un o'r ardaloedd i ni ymweld â nhw.[1]

Mae'r niferoedd sy'n cael eu rhoi dan glo'n llai fyth gan ostwng yn sylweddol wrth i'r llysoedd ieuenctid gau yn ystod Covid-19. Erbyn Gorffennaf 2020 dim ond 563 o blant dan 18 oed oedd dan glo – 31% yn llai na 12 mis cyn hynny[2] a dim ond 20% o'r nifer oedd dan glo yn 2003, pan oedd y ffigwr hwn dros 3,000. Felly mae llai o esgus fyth dros sefyllfa lle mae'r cymorth a gynigir i nifer gymharol fach o blant sy'n gadael y carchar bob blwyddyn yn parhau i fod mor wael – yn enwedig i rai dan ofal yr awdurdod lleol unwaith iddynt ddod allan. Dangosodd ein harolygiad ar-y-cyd o ansawdd y cymorth i blant a adawodd y carchar y llynedd nad yw hyn wedi gwella yn y pum mlynedd ers i Arolygiaeth Prawf EM arolygu'r mater hwn o'r blaen. Nid yw hyn yn ddigon da.  Felly o'r Gwanwyn 2021 ymlaen, bwriadwn gyflwyno safon newydd a phenodol i'n harolygiadau lleol, yn ymwneud ag ansawdd gwaith adsefydlu ar ôl gadael y carchar. Bydd yn berthnasol i bob YOT gyda phlentyn dan glo yn ystod y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo cysylltiedig wedi arwain at rywfaint o ryddhad dros dro o ran cyfraddau troseddu lleol. Yn anecdotaidd, ac wedi'i gefnogi gan ddata lleol mewn ardaloedd fel Llundain, cwympodd cyfraddau troseddu'n siarp rhwng Ebrill a Mehefin cyn codi wedyn wrth i'r cyfyngiadau lacio neu newid. Mewn rhai timau YOT a arolygwyd gennym dros y flwyddyn, yr arwyddion oedd bod troseddau cyllyll ymhlith rhai yn eu harddegau efallai'n dechrau dod nôl dan reolaeth, ond yn ôl yr ystadegau gwladol diweddaraf ar droseddau cyllyll mae'r sefyllfa'n dal i waethygu.

Mae cyflenwi cyffuriau drwy linellau sirol a phobl ifanc yn cael eu hecsbloetio'n droseddol gan oedolion hŷn yn parhau i fod yn bryderon mawr, gan barhau yn ystod y pandemig wrth i droseddwyr cyfundrefnol addasu eu marchnadoedd a'u dulliau dosbarthu i fyd Covid-19.

[1] O ddata wedi'i ddarparu gan y timau YOT a arolygwyd.
[2] Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2020). Data carcharu ieuenctid.

## Rheoli'r risg o niwed

Er bod llwythi achosion timau YOT wedi mynd yn llai, mae troseddau treisgar wedi dod yn rhan gynyddol o'r gwaith. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y troseddau hyn yn cyfrif am 50% o achosion llys y 16 gwasanaeth a arolygwyd ac y cyhoeddwyd adroddiadau arnynt. Maen nhw'n cyfrif am 30% o'r holl droseddau gan blant yn yr ystadegau gwladol – cynnydd o 10% ers 2009. Trais hefyd yw'r math mwyaf cyffredin o drosedd mewn dedfrydau allan-o-lys (47% o'r achosion i ni edrych arnynt yn y samplau hyn).

Er bod llawer o'r trais hwn efallai yn erbyn pobl ifanc eraill, cawsom hefyd fod trais sylweddol gan blant yn erbyn rhieni, er enghraifft gan fechgyn hŷn yn erbyn mamau sengl, a bod y trais a'r ymddygiad rheoli hwn wedi gwaethygu dros y cyfnod clo mewn rhai cartrefi. Mae hyn yn ddatblygiad pryderus. Mae angen mwy o ymchwil ac ymyriadau newydd i gefnogi'r rhieni hyn oherwydd mae gan y timau YOT gymaint o ddyletswydd gofal tuag atynt hwy â thuag at y plant.

Mae'r newid yn natur y cohort o blant sy'n cael eu goruchwylio gan dimau YOT (cohort llai ond mwy treisgar) yn ei dro'n effeithio ar risg y plant hyn o achosi niwed i bobl eraill. Dengys ystadegau asesu gwladol fod 85% o'r plant a ddedfrydwyd i orchymyn llys wedi eu hasesu i fod yn cyflwyno rhyw fath o risg i eraill, a bod 29% yn cael eu hystyried i fod yn cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed[3]. Mae hyn yn cyd-fynd â'n data arolygu ni ein hunain a asesodd fod 88% o'r sampl ôl-lys a arolygwyd, a 62% o'r achosion allan-o-lys, yn cyflwyno risg ganolig neu uchel o achosi niwed.

Am y rheswm hwn, mae ein harolygiadau'n rhoi pwyslais trwm ar asesu a rheoli'r risg o niwed yn effeithiol. Felly mae'n destun gofid gweld mai'r maes perfformiad hwn yw'r gwannaf o hyd ar draws y 768 o achosion a arolygwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Er ei bod yn hollol iawn bod angen rhoi sylw i les a phrofiad pob plentyn o drawma – sy'n cael ei adlewyrchu yn y mantra "plentyn yn gyntaf, troseddwr yn ail" – mae cyfran helaeth o'r plant hyn yn cyflwyno risg i bobl eraill, gan gynnwys i'w teuluoedd eu hunain. Am y rheswm hwn felly, mae'n bwysig peidio colli golwg ar ail ran y gosodiad hwn, sy'n gallu digwydd pan fydd timau YOT yn cael eu llwyr gyfuno o fewn adrannau gwasanaethau plant. Yn yr achos hwn, medrant golli eu hunaniaeth ar wahân fel timau troseddwyr ifanc sy'n gallu, yn ôl yr hyn a welsom, cael effaith andwyol ar eu perfformiad.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi canlyniadau ein harolygiad thematig o sut y mae timau YOT wedi gweithredu ers cyfnod clo Covid-19 ym mis Mawrth 2020, cyn mynd ymlaen i ganolbwyntio ar ein harolygiadau yn y cyfnod cyn y clo rhwng Mehefin 2019 (YOT Leeds) a Mawrth 2020 (Birmingham YOT), a edrychodd ar ansawdd y gwaith goruchwylio achosion cyn i'r pandemig daro.

## Effaith Covid-19 ar dimau YOT

Yn gyntaf oll, mae timau YOT lleol wedi cadw eu gwasanaethau i fynd ac wedi cyflwyno trefniadau eithriadol, sy'n gamp aruthrol o ystyried yr holl feini tramgwydd yn sgîl Covid-19. Llwyddwyd i aros mewn cysylltiad â phlant o ddechrau'r clo ym mis Mawrth ac roedd asesu da o les a risg o niwed. Cawsom hefyd fod partneriaethau gyda'r heddlu a'r gwasanaethau plant wedi aros yn gryf, gan wella mewn rhai achosion. Aeth gwaith yn ei flaen ar yr un lefel ag o'r blaen, gyda phaneli'n cyfarfod yn rhithiol.

Llwyddodd llawer o staff YOT i wynebu'r her gan ddatblygu ffyrdd newydd a dychmygus o gadw mewn cysylltiad â phlant, fel apiau fideo a negeseuon ar-lein. Lle bo angen, arhosodd y timau mewn cysylltiad drwy gyfarfodydd goruchwylio mewn gerddi a pharciau cyhoeddus.

---

[3] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020). Assessing the needs of sentenced children in the youth justice system.

Bu'r timau hefyd yn brysur yn dosbarthu pecynnau bwyd, teganau a chyfrifiaduron i'w teuluoedd mwyaf bregus ac ynysig.

Wrth gwrs, mae anawsterau wedi bod. Ni allai rhai plant fynd i'r ysgol am wahanol resymau, er enghraifft oherwydd na chawsant eu cynnwys yn niffiniad yr Adran Addysg (DfE) o fod yn fregus. Clywsom am oedi hir gyda chael gafael ar liniaduron yn ôl addewid y DfE, ac nid oedd gan rai plant fynediad at fand-eang i gael eu haddysgu gartref.

Ar wahân i'r timau YOT, gwyddom fod llysoedd wedi rhoi'r gorau i eistedd fel bod ôl-waith trwm o achosion wedi hel (55% yn genedlaethol)[4] a chynyddu'r amser yr oedd plant yn ei dreulio ar remand. Mae hyn yn her o hyd wrth i'r gwaith o geisio adfer o'r pandemig barhau.

I'r plant eu hunain, mae'r cyfnod clo wedi bod yn anodd iawn i bawb a gall ein data ond rhoi ciplun o brofiadau llawer o bobl ifanc fregus ac ynysig. Mae'r pandemig wedi bod yn brofiad andwyol arall ymhlith yr holl y bu'n rhaid i'r plant hyn eu hwynebu yn eu bywydau byr. Mae Covid-19 wedi dwysau anghenion y plant hyn a thynnu cymorth cyfarwydd oddi arnynt – bu'n rhaid i hwythau hefyd wynebu'r her.

## Perfformiad cyn Covid-19

Fel gyda'n hadroddiad blynyddol diwethaf, gwelsom amrywiad sylweddol ym mherfformiad y 16 tîm YOT a arolygwyd dros y naw mis hyd at fis Mawrth 2020, o YOT a sgoriodd yn 'Anfoddhaol' yn erbyn ein holl safonau (YOT Caerdydd) i'r YOT cyntaf yn Llundain i gael eu sgorio'n 'Rhagorol' yn erbyn ein safonau newydd (YOT Camden). O'r 16 tîm, sgoriwyd saith yn 'Rhagorol' / 'Da' yn gyffredinol ond sgoriwyd naw'n 'Anfoddhaol' neu 'Angen Gwella'.

Oherwydd ein bod eleni wedi arolygu gwahanol wasanaethau i'r rhai a ddisgrifiwyd yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf, ni fu'n bosib cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol ond mae'n ofid gweld bod y sgoriau ar gyfer ansawdd goruchwylio achosion eleni'n is mewn rhai meysydd allweddol. Yn benodol, rhoddwyd sgoriau is ar gyfer ansawdd cynllunio diogelwch a lles plant, a'r risg o niwed i eraill mewn achosion allan-o-lys, oedd ond yn foddhaol mewn ychydig dros hanner yr achosion a arolygwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

O'r achosion mwyaf difrifol a ddaeth o'r llys, sgoriwyd hefyd gyfran lai ohonynt fel 'Da' neu 'Rhagorol' o ran goruchwyliaeth, yn enwedig o ran sut y mae'r risg o niwed a achosir gan blant i eraill yn cael ei asesu, cynllunio ar ei gyfer, a'i adolygu.

Y llynedd, roedden ni wedi nodi fod achosion allan-o-lys yn dod yn gyfran gynyddol o lwythi achosion y timau. Mae'r arolygiadau diweddaraf yn dangos fod y duedd hon yn parhau gyda 58% o lwythi achosion y timau YOT a arolygwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys rhybuddiadau neu rybuddiadau amodol (awgryma'r ffigurau swyddogol fod y ganran genedlaethol yn 38%). [4] Roedd cyfran bellach o'r llwythi achosion a arolygwyd yn cynnwys gorchmynion cymunedol, ond ni chyhoeddwyd data ar ba mor eang y defnyddir y dedfrydau hyn ar lefel awdurdod lleol.

Mae ansawdd y gwaith gydag achosion allan-o-lys yn parhau i fod yn is nag ansawdd achosion llys. O fewn y cohort hwn o achosion allan-o-lys, mae ansawdd y gwaith a wneir gyda gorchmynion cymunedol anstatudol yn parhau i fod yn sylweddol is nag ansawdd y gwaith gydag achosion rhybuddiadau statudol a rhybuddiadau amodol. Pryderwn am y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu a chynllunio ar gyfer risg o niwed sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn.

---

[4] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020). Ystadegau cyfiawnder ieuenctid.

## Ai troi plentyn ymaith o'r System Cyfiawnder Ieuenctid yw'r peth gorau er eu lles bob tro?

Mae'n bryder ein bod yn parhau i weld dim cysylltiad rhwng ein dyfarniadau ynghylch ansawdd timau YOT unigol a metrigau allweddol fel cyfraddau ymuno â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf. Yn wir, o ystyried yr ymdrechion i geisio gwella'r ystod o wasanaethau a gynigir gan dimau YOT – gan gynnwys cymorth iaith a lleferydd, gwasanaethau iechyd meddwl ac iechyd rhyw, hyfforddiant cyflogaeth a mentora – mae'n groes i'r graen rhywsut mai un o brif fesurau eu llwyddiant yw nifer y plant nad ydynt yn cael mynediad i'r gwasanaethau hyn (oherwydd y ffocws ar gael y gyfradd sy'n ymuno â'r system am y tro cyntaf (FTE) mor isel â phosib).

I lawer o blant, cael eu cyfeirio gan dîm YOT at wasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), neu at wasanaeth iaith a lleferydd, oedd eu cyfle cyntaf i dderbyn asesiad ffurfiol – er i bryderon fodoli ers tro efallai. Felly nid yw bob tro efallai'r peth gorau er lles plentyn bod gymaint o ymdrech yn cael ei wneud i'w cadw draw o'r hyn y gall y tîm YOT ei gynnig.

Gallai polisi o 'anymyrryd radical', fel y cyfeiriwyd ato mewn cylchoedd gwaith cymdeithasol yn y 1970au, osgoi'r perygl bod plant yn cael eu labelu fel troseddwyr. Ond ni wna fawr ddim i roi cymorth ymarferol iddynt ag unrhyw anghenion sylfaenol sydd ganddynt, ac mewn realiti gallai fod yn gyfystyr ag esgeulustod anfwriadol, yn niffyg unrhyw gymorth neu strwythur arall ym mywydau'r plant hyn.

Mae'r ffaith bod mwy o blant o hyd yn ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf oherwydd troseddau sy'n ddigon difrifol i fynd yn syth i'r llys (45% o'r holl droseddwyr tro cyntaf hyd at fis Mawrth 2019 o'i gymharu â 10% yn 2009) yn bryderus gan awgrymu nad ydynt yn derbyn ymyrraeth ataliol foddhaol yn gynt. Rhaid i hyn newid.

## Mae aildroseddu'n parhau i fod yn uchel er bod llwythi achosion yn lleihau

Mae'n bryderus hefyd bod cyfraddau aildroseddu ieuenctid yn aros yn uchel ac eto'n dangos fawr ddim cysylltiad â'n dyfarniadau o ansawdd y gwasanaeth YOS. Er bod cyfraddau aildroseddu ieuenctid wedi gostwng o 2.5% yn genedlaethol, i 38.5% yn 2019, roeddent er hynny'n uwch na 10 mlynedd yn ôl. Ac mae'r plant sy'n aildroseddu'n gwneud mwy o hynny gydag amlder yr aildroseddu ar ei uchaf ers deng mlynedd.

Er bod llai o gyllid wedi'i roi i dimau YOT lleol dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae llwythi achosion statudol wedi gostwng yn gynt fyth. Mae'n golygu bod y llwyth achosion cyfartalog gan bob rheolwr achos yn debygol o fod mor fach ag erioed, rhywbeth nad oedd yn broblem wrth i ni holi staff dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn yr amgylchiadau hyn a ddylen ni fod yn disgwyl mwy o ran effaith y timau YOT ar aildroseddu, yn enwedig gan y timau a sgoriwn fel rhai 'Da' a 'Rhagorol' o ran gwasanaethau ac ansawdd eu hasesu?

Yn ôl y ddadl groes arferol, er bod llwythi achosion wedi bod yn lleihau, mae'r gyfran lai o achosion sy'n aros yn graidd caled o blant sy'n troseddu'n amlach ond sydd hefyd yn fwy bregus a drylliedig ac yn risg uwch i'w diogelwch eu hunain ac i ddiogelwch pobl eraill.

I raddau, mae ein data'n cefnogi hyn. O'r 768 o achosion a arolygwyd ar draws y 16 gwasanaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, roedd 19% ar gynlluniau amddiffyn plant a 18% yng ngofal awdurdod lleol. Cawsom hefyd fod gan 24% ryw fath o anabledd; roedd gan 32% broblem iechyd meddwl ac roedd gan 47% broblem camddefnyddio cyffuriau o ryw fath.

Ond mae felly'n bwysicach fyth bod gwasanaeth o ansawdd da'n cael ei ddarparu i bob un o'r plant hyn, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

### Nid yw plant mewn gofal yn derbyn gwasanaeth cystal

Eto, fel arall y gwelwn ni'n aml. Amcangyfrifwn, er enghraifft, y gallai fod dros 4,500 o blant sy'n derbyn rhybuddiad neu'n dechrau gorchymyn llys pob blwyddyn yn blant mewn gofal, gan gynnwys bron i 700 sy'n dechrau gorchymyn dan glo. Wrth i blant symud yn ddyfnach i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, mae'r gyfran sy'n derbyn gofal yn cynyddu – o 7% o ddedfrydau allan-o-lys i 19% o achosion haen gyntaf, 32% o achosion gorchymyn cymunedol, a 42% o bobl ifanc dan glo. Dengys dadansoddiad o ansawdd goruchwylio plant llwythi achosion timau YOT, ac sydd yng ngofal awdurdod lleol er enghraifft, fod ansawdd yr asesu, cynllunio ac adolygu ar gyfer yr achosion hyn yn waeth nag ar gyfer plant heb fod mewn gofal, yn erbyn pob safon bron.

### Mae gan dimau YOT rôl hanfodol i'w chwarae mewn delio ag anghyfartaledd ethnig

Y cohort pwysig arall o bobl ifanc a gafodd sylw eleni, a hynny'n ddyledus ers tro byd, oedd plant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig. Mae'r drafodaeth Mae Bywydau Du o Bwys wedi ailhoelio sylw a phryder y cyhoedd ar y nifer anghymesur o bobl ddu ifanc, yn enwedig dynion, sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol a'r driniaeth ohonynt.

Er mai cyfran fach iawn, mewn termau absoliwt, o blant gwyn a du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig sy'n mynd i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid pob blwyddyn, a chryn dipyn yn llai dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r nifer fach sy'n ymuno'n anghymesur o debygol o fod yn ddu neu Asiaidd. Fel gyda phlant mewn gofal, mae'r anghymesuredd yn cynyddu wrth fynd yn bellach i mewn i'r system. Yn ein harolygiadau, roedd 35% o'r dedfrydau allan-o-lys a arolygwyd yn blant o gefndiroedd du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig, o'i gymharu â 43% o achosion o garcharu (ac o'i gymharu â'r 18% o'r boblogaeth pobl ifanc gyffredinol y maen nhw'n ei gynrychioli).

Dengys ein harolygiadau fod Byrddau Rheoli YOT yn fwy ymwybodol o'r broblem ac yn gwneud ymdrechion i'w deall gan weithredu ar sail ymadrodd David Lammy y dylai gwasanaethau naill ai gynnig esboniad rhesymol dros yr anghysondeb, neu wneud rhywbeth am y peth.[5] Dengys data ein harolygiadau fod plant du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn derbyn gwasanaeth o'r un ansawdd â phlant gwyn, o ran ansawdd yr asesu, cynllunio a'r darparu, gyda rhieni a gofalwyr wedi eu cynnwys yn gyfartal o bob grŵp. Ond mae rôl ehangach i wasanaethau YOS mewn eiriol â gwasanaethau plant a chyfiawnder troseddol lleol eraill, neu â phartneriaid addysg, i ddelio â'r ffactorau sylfaenol a allai fod wrth wraidd yr anghymesuredd, cyn i achosion gyrraedd drysau unrhyw dîm YOT, er enghraifft, o ran eithrio plant o'r ysgol neu blismona neu arferion plismona neu ddedfrydu.

### Rhai casgliadau

Mae timau YOT yn parhau i chwarae rôl hanfodol yn y System Cyfiawnder Ieuenctid gan ddelio â 26,700 o'r plant mwyaf heriol a bregus yn y wlad.[6]

Mae rhai'n llwyddo'n wych i wneud hyn ac wedi parhau i wneud hynny o dan yr amodau anoddaf pan darodd haint Covid-19. Mae timau eraill wedi cael trafferth ymdopi ac angen gwella'n sylweddol.

I fod yn effeithiol, rhaid i bob tîm YOT lwyddo i rychwantu'r system cyfiawnder troseddol a'r gwasanaethau plant ac ieuenctid ehangach i ateb y gwahanol anghenion sydd gan blant gan amddiffyn y cyhoedd a chydnabod anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr ar yr un pryd.

---

[5] Lammy, David. (2017). Adolygiad Lammy: Adolygiad annibynnol o driniaeth a chanlyniadau pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

[6] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020). Ystadegau cyfiawnder ieuenctid.


Mae hyn yn gofyn llawer, ond i’r rhai sy’n llwyddo gall y manteision i’r plant yn eu gofal, ac i’r cymunedau ehangach y maen nhw’n eu gwasanaethu, bara oes.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

## Ffeithiau cyd-destun

**Llif plant drwy'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2019 (o ddata gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid)**




**Nodiadau ar y siart llif:**

1. AC eithrio heddlu Sir Gaerhirfryn. Ni allai heddlu Sir Gaerhirfryn ddarparu data am y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2019.
2. Ar hyn o bryd nid yw nifer y plant sy'n cael eu troi ymaith o fynd i mewn yn ffurfiol i'r System Cyfiawnder Ieuenctid drwy orchmynion cymunedol (math o ddedfryd allan-o-lys anffurfiol) neu gynllun fel Brysbennu, yn hysbys.
3. Mae hyd cyfartalog dedfryd o garchar yn golygu'r cyfnod llawn o garchar a roddwyd (dedfrydau hyd penodol yn unig), nid y cyfnod a dreuliwyd dan glo.


# Ein harolygiadau ieuenctid 2019-2020

### Arolygiadau ieuenctid unigol ac ar-y-cyd

Cyhoeddwyd yr arolygiadau canlynol rhwng Tachwedd 2019 a Hydref 2020:

- roedd arolygiadau unigol yn ymwneud ag arolygwyr o Arolygiaeth Prawf EM yn unig
- roedd arolygiadau ar-y-cyd dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM gyda chydweithwyr o’r arolygiaethau iechyd, heddlu, addysg a gofal cymdeithasol yn ymuno.

1 Leeds
2 Croydon (ar-y-cyd)
3 Dinas Caerlŷr
4 Brent
5 Southampton
6 Bradford (ar-y-cyd)
7 Sir Gaerloyw
8 Dinas Nottingham (ar-y-cyd)
9 Luton
10 Camden
11 Sir Rhydychen
12 Caerdydd (ar-y-cyd
13 Medway
14 Bury & Rochdale
15 Gogledd Sir Efrog
16 Birmingham




### Arolygiadau Ardaloedd Targed Ar-y-Cyd (JTAI)

Ofsted sy’n arwain ar gydlynu’r arolygiadau hyn o wasanaethau i blant bregus. Ymunodd ein harolygwyr ni â chydweithwyr o arolygiaethau eraill ar gyfer yr arolygiadau JTAI canlynol:

- Halton
- Milton Keynes
- Casnewydd
- Bexley
- Sefton
- Plymouth
- Portsmouth
- East Sussex

### Peilot ar gyfer arolygiadau YOT bach

Cynhaliodd yr Arolygiaeth beilot i brofi’r dull arolygu ar gyfer timau YOT bach:

- Solihull
- Stoke-on-Trent
- Wokingham
- West Berkshire

# Sgoriau arolygu 2019-2020

| | Sgoriau |
|---|---|
| ☆ | Rhagorol |
| ● | Da |
| ● | Angen gwella |
| ● | Anfoddhaol |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Darparu gweithredol** |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth |
| 1.2 | Staff |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau |
| **2.** | **Dedfrydau llys** |
| 2.1 | Asesu |
| 2.2 | Cynllunio |
| 2.3 | Gweithredu a darparu |
| 2.4 | Adolygu |
| **3.** | **Dedfrydau allan-o-lys** |
| 3.1 | Asesu |
| 3.2 | Cynllunio |
| 3.3 | Gweithredu a darparu |
| 3.4 | Gweithio ar-y-cyd |

| | | | | 1. Darparu gweithredol | | | | 2. Dedfrydau llys | | | | 3. Dedfrydau allan-o-lys | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth a arolygwyd | Cyhoeddwyd | Sgôr cyfansawdd | Sgôr cyffredinol | 1.1 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 3.1 | 3.2 | 3.3 | 3.4 |
| YOS Camden | 12/05/2020 | 31 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Angen gwella | Angen gwella | Rhagorol |
| YOS Sir Rhydychen | 15/05/2020 | 28 | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol |
| YOS Gogledd Sir Efrog | 17/09/2020 | 25 | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Da | Da | Da | Da | Rhagorol |
| CYPJS Dinas Caerlŷr | 07/11/2019 | 24 | Da | Angen gwella | Da | Rhagorol | Angen gwella | Rhagorol | Rhagorol | Da | Angen gwella | Da | Da | Da | Da |
| YJS Bury & Rochdale | 09/06/2020 | 22 | Da | Da | Da | Da | Da | Angen gwella | Da | Da | Angen gwella | Rhagorol | Da | Da | Da |
| YOS Brent | 18/12/2019 | 21 | Da | Da | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Angen gwella | Da |
| YOS Southampton | 23/01/2020 | 20 | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Rhagorol | Rhagorol | Angen gwella | Angen gwella | Rhagorol | Angen gwella |
| YOS Sir Gaerloyw | 28/01/2020 | 18 | Angen gwella | Da | Da | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Rhagorol | Da | Anfoddhaol | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella |
| YOS Medway | 04/06/2020 | 18 | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Da | Anfoddhaol | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella | Da | Da |
| YOS Croydon | 17/12/2019 | 16 | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Angen gwella | Rhagorol | Da | Da | Da | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Da |
| YJS Leeds | 01/11/2019 | 16 | Angen gwella | Angen gwella | Da | Da | Da | Angen gwella | Angen gwella | Da | Angen gwella | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Angen gwella | Rhagorol |
| YJS Luton | 29/05/2020 | 16 | Angen gwella | Angen gwella | Da | Da | Rhagorol | Da | Anfoddhaol | Angen gwella | Da | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Da | Angen gwella |
| YJS Dinas Nottingham | 19/03/2020 | 15 | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Rhagorol | Da | Da | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol |
| YOS Birmingham | 19/10/2020 | 7 | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Anfoddhaol | Angen gwella | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Angen gwella | Anfoddhaol |
| YOT Bradford | 16/01/2020 | 7 | Angen gwella | Anfoddhaol | Angen gwella | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Da | Anfoddhaol | Da | Da |
| YOS Caerdydd | 02/07/2020 | 0 | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol |

Rhoddir sgôr gyffredinol i bob YOT ar raddfa pedwar pwynt: 'Eithriadol', 'Da', 'Angen gwella' ac 'Annigonol'. Mae'r sgorau o'r safonau unigol yn cael eu crynhoi i gynhyrchu'r sgôr gyffredinol. Mae ychwanegu'r sgorau hyn yn cynhyrchu sgôr gyfansawdd sy'n amrywio o 0-36, sydd wedi'i fandio i gynhyrchu'r sgôr gyffredinol, fel a ganlyn: 0–6 = 'Annigonol', 7-18 = 'Angen gwella', 19-30 = 'Da', 31–36 = 'Eithriadol'.

# Y darlun mawr

## Newidiadau yn y cohort cyfiawnder ieuenctid

Yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019, roedd 18% yn llai o blant wedi derbyn dedfryd llys neu rybuddiad cyntaf o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, gan barhau tuedd sydd wedi para 12 mlynedd a welodd lai o bobl ifanc yn ymuno â'r System Cyfiawnder Ieuenctid.[7] Mae'r gostyngiad parhaus hwn wedi bod yn aruthrol, gyda nifer yr achosion statudol newydd (yr holl achosion yn mynd drwy'r llys) yn gostwng o 110,815 am y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2007 i ddim ond 11,928 am y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried y cynnydd yn nifer y gorchmynion cymunedol anstatudol lle nad oes data wedi'i gyhoeddi. Mae nifer y troseddau pellach gan bobl ifanc hefyd wedi gweld gostyngiad enfawr tebyg, i lawr o 18% yn 2019 o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, ac o binacl o 117,368 yn 2008 i ddim ond 15,729 yn 2019.[7]

Mae nifer y bobl ifanc dan glo wedi aros tua'r un fath dros y tair blynedd hyd at 2019, yn dilyn cwymp anferth o benllanw o 2,932 o bobl ifanc dan glo yn 2009 i 832 yn 2019. Mae'r nifer hwn wedi gostwng yn siarp eto i isafbwynt o 563 o bobl ifanc dan 18 oed dan glo ym mis Gorffennaf 2020. [8] Er bod llai o bob math o garcharu erbyn hyn, mae'r cwymp mwyaf wedi bod yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu rhoi dan glo mewn sefydliadau troseddwyr ifanc, oedd â 74% yn llai o bobl ifanc yn 2019 nag yn 2009. Dros yr un cyfnod, roedd 38% yn llai o ddefnydd yn cael ei wneud o ganolfannau hyfforddi diogel a 56% yn llai o ddefnydd o gartrefi plant diogel. Mae'r gyfran o bobl ifanc dan glo drwy orchymyn cadw a hyfforddi i lawr dros y degawd diwethaf, er bod y gyfran o bobl ifanc dan glo ar remand, a'r gyfran yn y carchar drwy orchymyn Adran 91 wedi cynyddu.[7]

## Aildroseddu gan bobl ifanc

Er na ellir cymharu cyfraddau aildroseddu'n uniongyrchol dros gyfnodau hir oherwydd bod y ffordd y mae'r data hwn yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi wedi newid, ac er bod nifer yr aildroseddau i lawr ynghyd â nifer y bobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid, ymddengys mai ychydig iawn y mae cyfraddau aildroseddu wedi newid dros y degawd diwethaf, er bod nifer gyfartalog y troseddau gan bobl ifanc sy'n aildroseddu i fyny, o 3.05 trosedd ar gyfartaledd gan bob aildroseddwr yn 2009, i 4.05 yn 2018. Mae'r ffigurau hyn yn cuddio amrywiad sylweddol yn y lefelau aildroseddu rhwng gwahanol fathau o orchymyn. Roedd gan ddedfrydau allan-o-lys i bobl ifanc, fel rhybuddiadau a rhybuddiadau amodol, gyfradd aildroseddu o 26.6% yn 2018 ond roedd gan orchmynion adsefydlu ieuenctid (YRO) a gorchmynion carcharu gyfraddau llawer uwch sef 61.7% am y naill a 69.3% am y llall.[9] Mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd mae gorchmynion YRO a dedfrydau o garchar yn llawer mwy difrifol ac yn debygol o gael eu defnyddio ar gyfer ymddygiad troseddol mwy difrifol a di-ildio na rhybuddiadau. Defnyddir rhybuddiadau'n amlach na pheidio ar gyfer troseddau lefel isel nad ydynt yn bodloni'r trothwy i dderbyn dedfryd mewn llys. Nid oes data wedi'i gyhoeddi ar faint o aildroseddu a gyflawnir, a pha mor aml, gan blant a gafodd orchymyn cymunedol anstatudol, sy'n fwlch cynyddol ddifrifol yn y dystiolaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid.

---

7 Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020). Youth Justice Statistics: 2018-2019.
8 Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM (2020). Youth custody data.
9 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020). Proven Offending Statistics: January to March 2018.

## Troseddau cyllyll

Er bod cofnodion swyddogol yr heddlu ar droseddau cyllyll yn dangos cyfanswm o 46,265 o droseddau am y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2020, bydd y rhain yn cynnwys troseddau gan oedolion yn ogystal â phobl ifanc. Dengys data blynyddol ar nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty, rhwng 2016/17 a 2018/19, fod cyfran yr anafiadau gan bobl ifanc rhwng 10-17 oed a achoswyd o ganlyniad i ymosodiad ag arfau miniog i fyny fymryn o 10.7% (473 o achosion) i 12% (614 o achosion).

Yn ôl ein harolygiadau diweddar o wasanaethau YOS, mae bylchau pryderus yn ansawdd y gwaith a'r ymyriadau a ddarperir i blant sy'n rhan o droseddau cyllyll. Mae angen i reolwyr achos weithiau ddadansoddi'n fwy cynhwysfawr a thyllu'n ddyfnach i amgylchiadau'r troseddau hyn. Gwelsom wasanaeth YOS yn defnyddio ymyriad troseddau cyllyll hen-arfer, a thimau YOT eraill na allai ddarparu lle ar eu cyrsiau i'r holl blant cymwys a pherthnasol. Er hynny, gwelsom waith da hefyd. Er enghraifft, roedden ni'n edmygus o waith aml-asiantaeth cadarn YOT Croydon oedd yn cyfrannu at leihau troseddau cyllyll a thrais gangiau. Mae gwaith YJS Nottingham, drwy eu rhaglen ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll, yn cael ei werthuso gan brifysgol leol.

Ein bwriad eleni oedd noddi gwaith ymchwil gwreiddiol ar droseddau cyllyll ond mae pandemig Covid-19 wedi atal y gwaith hwnnw am y tro. Rydyn ni'n gobeithio gallu cyhoeddi ein canfyddiadau ar waith da ac addawol gan wasanaethau YOS yn 2021.

## Llinellau sirol

Drwy'r model troseddu llinellau sirol, mae grwpiau troseddol cyfundrefnol yn gwerthu cyffuriau y tu allan i'w hardaloedd drwy linellau ffonau symudol, 'llinellau delio', i gymryd archebion cyffuriau. Mae llinellau sirol yn ecsbloetio plant ac oedolion bregus yn droseddol i gario cyffuriau, arfau ac arian i mewn ac allan o'r ardaloedd. Yn aml iawn defnyddir trais, gan gynnwys trais rhywiol, i reoli drwy orfodaeth.  Cafodd dros 3,000 o rifau ffôn 'llinellau delio' eu hadnabod gan yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol yn 2019.

Yn ôl yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol, mae'r llinellau sirol wedi manteisio ar argyfwng Covid-19. Maen nhw wedi gallu dod o hyd i blant bregus yn haws i'w hecsbloetio, wrth i blant dreulio mwy o amser yn eu cymdogaeth ac wrth i'r cyfnod clo weld gwasanaethau ieuenctid, gan gynnwys rhai YOS, yn cael eu tynnu'n ôl o gymunedau.[10]

Wrth i wasanaethau YOS ddechrau ailafael ynddi, rhaid iddynt hwythau hefyd fod yr un mor effro wrth ymateb i ecsbloetio troseddol. Enghraifft dda i'w dilyn yw YOT Camden. Roedd yr YOT hwn wrth galon partneriaeth gref gyda'r heddlu, gwasanaethau plant ac asiantaethau allweddol eraill. Mae staff yn rhannu gwybodaeth mewn sesiynau briffio risg tele-gynadledda dyddiol ac yn cyfeirio plant bregus at gymorth priodol, gan gynnwys at eu cynghorydd arbenigol eu hunain, ac at ymyriadau yn y ddalfa gan yr heddlu.


[10] Yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol (2020). Hidden in Plain Sight.

# Anghenion plant yn y system cyfiawnder ieuenctid

Dengys y data diweddaraf gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ar gyfer 2018/2019 fod cyfanswm llwythi achosion statudol y gwasanaethau troseddwyr ifanc ar draws Cymru a Lloegr i lawr 19% o'i gymharu â'r flwyddyn cynt. Mae hyn yn rhan o duedd barhaus, ers deng mlynedd o leiaf, i weld lleihad mewn llwythi achosion statudol.

Roedd llwythi achosion yn 2018/2019 bron hanner faint yr oeddent yn 2013/2014. O ran cyfran, mae genethod a merched ifanc bellach yn cyfrif am lawer llai o'r llwyth achosion: 15% yn 2018/2019 o'i gymharu â 19% yn 2013/2014.

**Ffigwr 1: Rhywedd plant mewn llwythi achosion timau YOT**




### Beth y mae ein cohort arolygu'n edrych fel?

Yn ein harolygiadau yn 2019/2020, roedd 88% o'r achosion ôl-lys yn fechgyn a 12% yn ferched. O ran achosion allan-o-lys, roedd 82% ohonynt yn fechgyn a 18% yn ferched (i raddau, mae'r cyfrannau'n dibynnu ar ein dull o ddewis samplau o achosion).

Ar y cyfan, dengys canfyddiadau cyfunol ein harolygiadau ar draws achosion ôl-lys dros y ddwy flynedd fod mwy o ferched yng ngofal yr awdurdod lleol a mwy ohonynt yn debygol o fod wedi cael eu rhoi mewn gofal y tu allan i'w hardal leol. Roedd merched gyda dedfrydau allan-o-lys ddwywaith mor debygol o fod mewn gofal â bechgyn gyda dedfrydau allan-o-lys.

Roedd merched yn fwy tebygol o dderbyn gorchymyn cyfeirio at wasanaeth, a bechgyn yn fwy tebygol o dderbyn dedfrydau mwy llym, gyda nifer uwch o orchmynion YRO a dedfrydau o garchar (roedd 98% o'r cohort dan glo'n fechgyn a 2% yn ferched). Roedd cyfran debyg o'r ddau grŵp wedi derbyn gorchmynion cymunedol (35% o fechgyn a 44% o ferched), ond roedd mwy o fechgyn wedi derbyn rhybuddiadau amodol. Gallai hyn fod oherwydd bod mwy o fechgyn wedi derbyn sancsiynau allan-o-lys o'r blaen. Roedd merched yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni troseddau treisgar (67% o ferched a 46% o fechgyn). Roedd bechgyn yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni troseddau cyffuriau (12% o fechgyn a 3% o ferched).

Plant iau rhwng 10-14 oed a dderbyniodd y nifer fwyaf o ddedfrydau allan-o-lys, gyda dim ond 7% o'r grŵp oed hwn wedi derbyn dedfrydau statudol yn y llys. Roedd y cohort yn fwy tebygol o dderbyn ymyriadau ôl-lys wrth fynd yn hŷn. Erbyn i'r plant gyrraedd 17-18 oed, roedd dros eu hanner wedi derbyn sancsiynau gan y llys.

### Addysg

Mae plant sy'n hysbys i dimau YOT – oedran ysgol a 16+ oed – yn cael trafferth cael mynediad at addysg, hyfforddiant a gwaith. Roedd mynediad at addysg yn broblem i ddau allan o dri bron o'r plant gyda gorchymyn llys yn yr achosion a arolygwyd. Er bod y sefyllfa'n well yn achos plant gyda dedfrydau allan-o-lys, roedd mynediad at addysg yn dal i fod yn broblem i 47% o'r plant yn ein sampl achosion.

Roedd lefelau gwahardd o'r ysgol ymhlith plant yng ngofal timau YOT yn uchel, fel yng Nghaerloyw, ac roedd Luton yn dibynnu gormod ar ddefnyddio unedau cyfeirio disgyblion. Nid oedd Byrddau Rheoli YOT bob tro'n ymwybodol o 'barthau poeth' o ran gwahardd, neu heb ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r broblem. Cawsom fod rhai disgyblion a roddwyd mewn addysg amgen yn methu â sefyll arholiadau TGAU ac nid oedd digon o ddarpariaeth addas i blant ag anghenion cymhleth bob tro.

Roedden ni'n bryderus o ganfod nad oedd plant bob tro'n derbyn eu hawliau cyfreithiol i addysg ac nad oedd hyn yn cael sylw strategol. Mewn pump allan o'r 16 ardal a arolygwyd, gwnaethom argymhellion penodol i awdurdodau lleol i wella'r addysg i blant.

Roedd gan nifer sylweddol o'r plant gynlluniau addysg, iechyd a gofal, ond nid oedd anghenion y plant wedi eu hadlewyrchu yn asesiadau a gwaith achos y timau YOT bob tro. Yn rhy aml, nid oedd cynlluniau addysg, iechyd a gofal ar gael oherwydd prosesau gwael rhwng yr YOT a'r adrannau addysg.

Yng Nghaerlŷr roedd tystiolaeth o waith da'n cynorthwyo plant ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig. Mae seicolegwyr addysgol wedi eu cysylltu i'r YOT gan weithio ochr yn ochr â chydweithwyr mewn ysgolion, fel bod ysgolion yn cael eu cynorthwyo i reoli ymddygiad plant. Mae seicolegydd addysgol yn cael ei ddyrannu i bob plentyn sy'n cael ei garcharu i sicrhau bod anghenion addysgol y plentyn yn cael eu cwrdd, yn enwedig wrth drosglwyddo i mewn ac allan o'r carchar. Mae 'panel mynediad teg' yn cynnwys uwch-arweinwyr o bob ysgol, gan gynnwys yr ysgolion academi. Mae'r gweithiwr addysg YOT yn mynychu'r panel i eiriol dros y plentyn a rhaid i'r ysgol ddangos ei bod wedi gwneud ei gorau glas cyn ystyried gwahardd. Mae'r ysgolion yn dal ei gilydd i gyfrif am unrhyw waharddiadau a rhaid i bob ysgol ofyn am gymorth gan yr uned cyfeirio disgyblion cyn y gellir cytuno i wahardd.

### Pobl ifanc 16+ oed

Yn y rhan fwyaf o wasanaethau YOS, mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gael i bobl ifanc 16+ oed i'w helpu i ddod o hyd i addysg, hyfforddiant neu waith (ETE) addas. Fodd bynnag, prin oedd effaith y cymorth hwn i'w weld weithiau. Mewn un ardal, roedd 37% o blant YOS dros yr oedran ysgol statudol heb fod mewn ETE, o'i gymharu â 2% yn y boblogaeth 16+ yn gyffredinol[11]. Nid oedd y math hwn o anghysondeb yn anghyffredin a rhaid deall a rhoi sylw priodol iddo, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd addysg i ymatal rhag troseddu.

[11] Data gan y tîm YOT a arolygwyd.

**Ymarfer da**

Roedd dau o'r timau YOT a arolygwyd (Gogledd Sir Efrog a Leeds) wedi comisiynu gwasanaethau gan 'The Skill Mill' (Skills4work), prosiect sy'n gweithio gyda'r plant mwyaf bregus ac a aseswyd i fod yn cyflwyno'r risg uchaf, sy'n gallu cael trafferth gyda dod o hyd i wasanaeth addas i ateb eu hanghenion. Mae'r prosiect yn gweithio gyda hyd at bedwar o bobl ifanc ar y tro, am hyd at chwe mis. Mae'r plant yn gweithio pedwar diwrnod yr wythnos ac yna'n dysgu sgiliau ac astudio tuag at gymwysterau galwedigaethol ar un diwrnod yr wythnos (er enghraifft, sgiliau adeiladu neu iechyd a diogelwch). Os yw cyfle cyflogaeth yn codi, maen nhw'n cael eu cynorthwyo i ddod o hyd i waith llawn amser neu brentisiaeth.

## Gofal cymdeithasol plant

Mae plant mewn gofal yn gyfran sylweddol o'r achosion i ni edrych arnynt yn ystod ein harolygiadau, ac o'r holl blant yn y system cyfiawnder troseddol. O'r 24,000 o bobl ifanc a ddechreuodd orchymyn llys neu rybuddiad yn 2018/2019, amcangyfrifwn fod 4,500 yn blant mewn gofal, gan gynnwys bron i 700 o blant a ddechreuodd orchymyn carcharu.

O'r achosion a arolygwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 26% o'r plant gyda gorchymyn llys wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol ar ryw bwynt yn ystod eu dedfryd. Yn ogystal, roedd 21% o'r plant wedi bod yn destun cynllun amddiffyn plant neu ymchwiliad Adran 47 ar ryw bwynt yn ystod eu dedfryd. Mae'r grŵp hwn o blant yn arbennig o fregus ac yn aml iawn wedi dioddef trawma ac ecsbloetio. O'r achosion a arolygwyd oedd mewn gofal, roedd 33% yn blant oedd hefyd ag anabledd.

Mae'n hanfodol bod yr YOS a gofal cymdeithasol plant yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod plant bregus yn derbyn y gofal a'r ymyriadau iawn ar yr amser iawn. Gall y plant hyn gyflwyno risg o niwed i eraill ond hefyd yn fregus eu hunain. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn glir beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau, yn enwedig o ystyried eu bod yn gweithio o dan wahanol fframweithiau deddfwriaethol. Mae angen cydbwyso anghenion lles â ffocws priodol ar ymddygiad troseddol a risg i eraill.

Cawsom fod gwaith partneriaeth rhwng yr YOS a gofal cymdeithasol plant yn anghyson ac weithiau'n aneffeithiol o ran gallu ateb anghenion plant a'u cadw'n ddiogel. Mae rolau a chyfrifoldebau weithiau'n aneglur. Hyd yn oed lle'r oedd awdurdod wedi mabwysiadu dull 'plentyn yn gyntaf' neu seiliedig ar ddeall trawma i geisio deall ymddygiad troseddol, nid oedd natur fregus plant YOS bob amser wedi'i adnabod. Nid oedd staff YOS bob amser yn bresennol mewn cyfarfodydd strategol ac adolygiadau o blant mewn gofal, lle gallent fod wedi cyfrannu gwybodaeth bwysig. O ganlyniad roedd cynllunio ar-y-cyd yn aml yn wan a gweithrediad ymyriadau'n ddigyswllt.

Oherwydd y methiannau hyn, nid oedd ansawdd y gwasanaethau i blant yn y system ofal yn cyfateb i ansawdd y gwasanaethau oedd yn cael eu rhoi i blant eraill, ac yn arbennig o wan i blant mewn gofal y tu allan i'w hardaloedd lleol.

**Tabl 1 : Sgoriau cyfunol o 2018/2019 a 2019/2020 ar gyfer 1,253 o achosion llys a arolygwyd ar draws 42 o dimau YOT**

| | Asesu | Cynllunio | Darparu | Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| Plant heb fod mewn gofal | Da | Da | Da | Da |
| Plant mewn gofal yn byw oddi mewn i ardal yr arolygiad | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella |
| Plant mewn gofal yn byw y tu allan i ardal yr arolygiad | Da | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella |

Gwelsom enghraifft o ymarfer da yn Leeds lle'r oedd yr YOT wedi dod o hyd i gyllid i recriwtio gweithiwr plant mewn gofal arbenigol, oedd nid yn unig yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r cohort plant hwn ond hefyd yn darparu hyfforddiant ehangach i asiantaethau a phartneriaid eraill ar anghenion penodol y plant hyn.

### Plant dan glo

Yn yr achosion a arolygwyd, roedd y plant a ddedfrydwyd i garchar yn wahanol i achosion YOT eraill mewn nifer o ffyrdd (Atodiad 1). Dangosodd ein data arolygu:

- eu bod yn fwy tebygol o fod yn blant mewn gofal (42% o'i gymharu â 21%).
- bod ganddynt euogfarnau blaenorol, gyda 37% ag o leiaf chwe euogfarn flaenorol o'i gymharu â 6% o'r boblogaeth y tu allan i'r carchar.
- eu bod yn hŷn, gyda 33% o'r achosion hyn yn 18 oed pan arolygwyd eu hachosion o'i gymharu â 21% o'r plant a ddedfrydwyd i orchmynion cymunedol.
- bod plant du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn cyfrif am 42% o'r achosion dan glo o'i gymharu â 41% o blant gyda dedfrydau cymunedol.

Yn ogystal, roedd plant gyda dedfrydau o garchar:

- gyda mwy o bryderon diogelwch a lles – asesodd y rheolwr achos fod hyn yn uchel neu'n uchel iawn mewn 83% o'r plant hyn, o'i gymharu â 46% mewn plant heb ddedfrydau o garchar.
- wedi eu hasesu i fod yn cyflwyno risg uwch o achosi niwed difrifol i eraill, gyda'r rheolwyr achos yn asesu bod y plant a ddedfrydwyd i garchar yn cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed i eraill mewn 85% o'r achosion, o'i gymharu â 23% o'r plant a ddedfrydwyd i orchymyn cymunedol.

Mae gan blant a ddedfrydir i garchar, felly, anghenion cymhleth. Maen nhw'n aml wedi treulio amser mewn gofal ac mae pryderon uwch am eu diogelwch a'u lles a'u risg o niwed. Maen nhw'n tueddu i fod yn hŷn ac ar fin trosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion. Mae hyn yn cyflwyno heriau ychwanegol i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ar bwynt eu rhyddhau. Er y gwelsom enghreifftiau o ymarfer da, ar y cyfan roedden ni'n bryderus am y cymorth oedd yn cael ei gynnig i blant yn dod allan o'r carchar. Yn ôl ein harolygiad thematig o'r mater hwn, ar-y-cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, ychydig iawn o gynnydd a wnaed ers 2015. O'r herwydd, ac i hybu

gwelliannau ar lefel leol, o'r gwanwyn 2021 ymlaen byddwn yn arolygu a sgorio pob YOT sydd ag achosion dan glo ar ansawdd eu gwaith gyda'r achosion hyn.[12]

| Ymarfer da |
| --- |
| Yn Camden mae rhaglen Adsefydlu Adeiladol Estynedig ar waith sy'n seiliedig ar y pum egwyddor o adsefydlu adeiladol.[13] Mae gan y prosiect, sydd mewn partneriaeth â'r New Horizons Youth Centre, ddau weithiwr adsefydlu sy'n ymweld yn wythnosol â'r plant dan glo ac yn cyfrannu'n weithredol at gynllunio i'w hadsefydlu. Mae seicolegydd clinigol yn cynorthwyo gyda'r gwaith. Mae'r cymorth estynedig hwn yn parhau ar ôl rhyddhau'r plant yn ôl i'r gymuned ac yn cael ei gynnig wedyn hefyd wrth i blant drosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion er mwyn cynnal cyswllt cyson ag oedolyn dibynadwy. |

| Ymarfer da |
| --- |
| Yn Derby, mae'r holl blant a ddedfrydir i garchar yn cael eu cyfeirio at y Panel Craffu Dan Glo. Mae'r panel aml-asiantaeth hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r ystad garchardai, yn gweithio gyda'r plentyn o ddechrau'r ddedfryd tan ddiwedd eu trwydded. Mae'n craffu ar gynlluniau adsefydlu a chynnig cymorth a goruchwyliaeth fwy manwl i'r plant sydd ei angen arnynt. |

| Ymarfer da |
| --- |
| Mae South and West Yorkshire Resettlement Consortium wedi'i sefydlu ers 2014. Ei gylch gwaith yw gwella canlyniadau adsefydlu i blant yn y naw gwasanaeth troseddwyr ifanc yn yr ardal, sydd wedi cynnwys cyflwyno clinigau adsefydlu, gwella gwaith partneriaeth aml-asiantaeth, mwy o eiriolaeth i'r plant sydd dan glo, a safon cytundeb llety ar gyfer plant. Yn 2019, enillodd y consortiwm statws Adsefydlu Adeiladol Cynllun Braenaru'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i gynorthwyo ardaloedd eraill i ddatblygu dull tebyg o weithio. |

### Plant du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig

Roedd Adolygiad Lammy (2017)[14] yn tynnu sylw at bryderon bod 40% o'r bobl ifanc dan glo yn y carchar yn ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig. Ers hynny mae'r ffigur hwn wedi codi i dros 50% er bod y cohort hwn ond yn cyfrif am 18% o'r boblogaeth ieuenctid (10-17 oed) yng Nghymru a Lloegr.[15] Ac nid yw'r broblem wedi'i chyfyngu i garcharu.

Roedd 26% o'r plant gyda dedfryd allan-o-lys yn ein harolygiadau'n ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig gan godi i 41% ar gyfer dedfrydau ôl-lys (gan gynnwys carcharu).


Mae cryn newid wedi bod yn nodweddion ethnig pobl ifanc sydd yn y cohort YOT cenedlaethol. Ers 2013/2014, mae'r gyfran o'r llwyth achosion sy'n adnabod eu hunain fel gwyn wedi gostwng o 75% i 70%. Dros yr un cyfnod, mae cyfran y bobl ifanc sy'n adnabod

---

[12] Arolygiaeth Prawf EM (2020). Response to the consultation and ratings for inspection of youth offending services.
[13] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2018). How to make resettlement constructive.
[14] Lammy, David. (2017). The Lammy Review. An independent review into the treatment of, and outcomes for, Black, Asian and minority ethnic individuals in the criminal justice system. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
[15] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2012). Cyfrifiad 2011.

eu hunain fel du wedi cynyddu o 8% o'r holl lwyth achosion i 11% ac mae'r gyfran sy'n adnabod eu hunain fel rhai o darddiad ethnig cymysg i fyny o 5% o'r llwyth achosion i 8%.

**Ffigwr 2: Tarddiad ethnig plant mewn llwythi achosion YOT**




Lle mae anghyfartaledd yn bodoli, roedd Byrddau Rheoli'r gwasanaethau YOS yn ymwybodol o'r broblem ac yn awyddus i ddeall y rhesymau, ar lefel weithredol a strategol. Roedd gan rai gynlluniau monitro a gweithredu clir yn eu lle. Roedd rhai enghreifftiau da o Fyrddau Rheoli'n dilyn dull rhagweithiol a chadarnhaol, ond er hyn gwelsom fawr ddim tystiolaeth o ganlyniadau gwell i'r plant.

| Ymarfer da |
| --- |
| Yn Sir Rhydychen, un o flaenoriaethau'r Bwrdd Rheoli yw deall a lliniaru'r anghyfartaledd. Mae'r Bwrdd wedi bod yn mapio hyn ac wedi cynhyrchu cynllun gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys ymweld â thimau YOT eraill sy'n perfformio'n well ar hyn, a chynnal paneli dedfrydu allan-o-lys 'dall' i geisio lliniaru unrhyw ragfarn ddiarwybod. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal adolygiad thematig o garcharu er mwyn deall yn well pam fod gymaint o blant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig dan glo. |

| Ymarfer da |
|---|
| Yn Camden, mae plant o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig wedi eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith rhai sy'n derbyn dedfrydau mwy caethiwus neu lym, gan gynnwys dedfrydau o garchar, ac yn fwy tebygol o gael eu cadw yn y ddalfa na'r boblogaeth wyn. Mae'r YOT wedi ymrwymo i geisio datrys hyn ac wedi ymgorffori'r mater yn ei Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu ac yn cadeirio grŵp rhyng-fwrdeistrefol yn Llundain i helpu i ddeall a cheisio datrys materion perthnasol, gan weithio â Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu (MOPAC) i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer Llundain i geisio datrys anghymesuredd ar sail tarddiad ethnig. Mae'r YOT hefyd yn gweithio gyda Llys Ieuenctid Highbury Corner i graffu ar benderfyniadau remand i helpu i ddatrys materion yn ymwneud ag anghymesuredd. Mae'r holl ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod ac anghymesuredd ac mae'r YOT yn gwneud ymdrechion gweithredol i recriwtio gwirfoddolwyr o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig i'r panel cyfeirio. |

Er bod y data'n dangos bod plant lleiafrifol ethnig wedi eu cynrychioli'n anghymesur mewn llwythi achosion gan dimau YOT, yn dilyn dadansoddi ein data arolygu, awgrymir nad yw ansawdd y cymorth a goruchwyliaeth a gynigir i'r plant hyn gan dimau YOT yn wahanol iawn i'r hyn a gynigir i blant gwyn. Yn wir, cawsom fod yr ansawdd yn is i blant o darddiad ethnig gwyn yn 2019/2020, ac yn is nag yn 2018/2019.

**Tabl 2 : Sgoriau cyfunol yn 2019/2020 ar gyfer 462 o <u>achosion llys</u> a arolygwyd ar draws 16 o dimau YOT**

| | Asesu | Cynllunio | Gweithredu a darparu | Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| Plant gwyn | Da | Angen gwella | Da | Angen gwella |
| Plant du | Da | Angen gwella | Da | Da |
| Plant Asiaidd | Angen gwella | Da | Da | Da |
| Plant o gefndiroedd cymysg | Da | Angen gwella | Da | Anfoddhaol |
| Plant eraill | Angen gwella | Anfoddhaol | Angen gwella | Anfoddhaol |

**Tabl 3: Sgoriau cyfunol yn 2019/2020 ar gyfer 306 o achosion allan-o-lys a arolygwyd ar draws 16 o dimau YOT**

| | Asesu | Cynllunio | Gweithredu a darparu | Gweithio ar-y-cyd |
|---|---|---|---|---|
| Plant gwyn | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Da |
| Plant du | Anfoddhaol | Angen gwella | Anfoddhaol | Angen gwella |
| Plant Asiaidd | Da | Da | Da | Da |
| Plant o gefndiroedd cymysg | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella | Angen gwella |

## Covid-19

Ym mis Mawrth, gwelodd bandemig Covid-19 newid aruthrol mewn sut y bu'n rhaid i dimau YOT ddarparu gwasanaethau i blant. Roedd angen i dimau YOT barhau i gadw'r cyhoedd a phlant yn ddiogel, a sicrhau hefyd bod gan staff arferion gweithio diogel. Ym Mehefin a Gorffennaf, cafodd arolygiad thematig o'r gwaith hwn ei wneud. Fe wnaethom gynnal nifer o grwpiau ffocws ac asesu saith YOT o bell, gan edrych ar 70 achos i gyd.

Barnodd arolygwyr fod y timau YOT wedi gweithio'n hyblyg ac ymroddedig i ymateb i effaith Covid-19, gan lwyddo i daro cydbwysedd effeithiol rhwng ymateb i anghenion a'r risgiau a gyflwynir i blant a theuluoedd, a chadw staff yn ddiogel. Roedd y cynlluniau parhad busnes cychwynnol yn effeithiol, a hyn wedi'i gynorthwyo drwy fod wedi eu dylunio i ateb anghenion lleol a'u cydlynu â threfniadau gorchymyn a chynllunio awdurdod lleol. Wrth i'r sefyllfa newid, roedd modelau gweithredol yn cael eu hadolygu a'u haddasu'n gyflym. Er bod y gwasanaethau ychydig yn wahanol, symudodd y timau YOT yn ddioed at fusnes fel arfer ond gan ddarparu eu gwaith yn wahanol. Llwyddwyd i gynnal partneriaethau ar lefel strategol a gweithredol.

Wynebodd staff yr her yn dda gan weithio ag ymroddiad ac ymrwymiad i gadw rhai plant bregus iawn mor ddiogel â phosib. Yn achos plant a gyflwynai'r risg fwyaf i eraill, llwyddodd staff ar y cyfan i gadw cyswllt wyneb yn wyneb, ond drwy ddull 'ochr yn ochr'.

Mae ymateb y plant i'r pandemig wedi disgyn i ddau grŵp yn bennaf. Mae'r grŵp llai wedi cydymffurfio â'r cyfyngiadau gan ddefnyddio'r amser i fyfyrio ar eu dyfodol; i'r mwyafrif mae'r cyfnod clo wedi bod yn anodd, gan waethygu'r anghenion sydd ganddynt. I rai, roedd y pandemig yn ychwanegu at restr hir eisoes o brofiadau trawmatig. Yn achos yr holl blant, mae elfennau pwysig o gymorth i ymatal wedi mynd.

Oherwydd na chafodd blant mewn cysylltiad â thimau YOT eu cynnwys yn niffiniad yr Adran Addysg o blentyn bregus (oni bai fod ganddynt hefyd gynllun addysg, iechyd a gofal, neu gynllun amddiffyn plant), nid oedd lle mewn ysgol yn cael ei gynnig yn awtomatig iddynt dros y cyfnod clo. Ond gwyddom fod ysgol yn anodd i'r grŵp hwn o blant a bod cyfraddau uchel o wahardd weithiau ar adegau normal. Yn ein sampl, aeth nifer fach iawn o blant i'r ysgol dros y cyfnod clo ac nid oedd gan 41% o blant fynediad at waith ysgol hyd yn oed. Ni wyddom eto beth fydd yr effaith hirdymor ar y plant hyn.

Roedd gwasanaethau'n cael eu darparu'n wahanol a gwelodd arolygwyr fanteision ac arloesi y bydd gwasanaethau'n parhau i'w darparu. Roedd y rhain yn cynnwys manteision cysylltu â phlant dros y ffôn wrth iddynt ddod i adnabod staff; addasu rhaglenni i'w darparu gan bartneriaid neu'n rhithiol; a rhieni'n cyfrannu mwy at ddarparu'r gwaith i roi sylw i anghenion cysylltiedig â throseddu. Roedd gan rai ardaloedd ymyriadau i'w darparu gan rieni a dywedodd rai rhieni eu bod yn falch o hyn oherwydd ei fod yn rhoi dealltwriaeth well iddynt o'r gwaith yr oedd eu plentyn yn ei wneud gyda'r YOT.

Pan oedd perthynas wyneb yn wyneb eisoes rhwng y rheolwr achos a'r plentyn, roedd wedi symud at lwyfan rhithiol yn hawdd a dywedodd y rhan fwyaf o blant, pan gawsant eu holi, bod yn well ganddynt gyswllt ffôn. Lle'r oedd yr achosion yn newydd, roedd cwblhau'r asesiad cychwynnol dros y ffôn yn anoddach. Fodd bynnag, dywedodd plant a holwyd gan yr arolygwyr eu bod yn gwerthfawrogi datblygu perthynas dros y ffôn cyn cyfarfod y rheolwr achos. Roedd y cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf wedyn yn haws meddent.

Roedd y timau YOT wedi datblygu model cymysg o ddarparu. Roedd hyn yn cynnwys rhai ymyriadau o bell gyda'r rheolwyr achos yn anfon deunydd allan ymlaen llaw ac yn defnyddio cysylltiadau ffôn i'w drafod, ynghyd â rheolwyr achos yn dod o hyd i glipiau fideo addas i'w

trafod ac yn symud rhaglenni eraill ar-lein. Roedd staff YOT yn ymweld drwy fynd i erddi, reidio beic a 'siarad a cherdded' mewn strydoedd a pharciau lleol. Roeddent yn ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â phlant i ffwrdd o amgylchedd arferol y swyddfa. Fodd bynnag, dywedodd rhai staff ei bod yn anodd cael sgwrs am faterion cyfrinachol wrth gerdded ar hyd strydoedd prysur, neu lle gallai cymdogion glywed y sgwrs.

### Trais yn erbyn rhieni

Roedd dau fater arall lle gallai Covid-19 fod wedi ychwanegu at bryder parhaus. Y cyntaf yw trais arddegau yn erbyn rhieni. Roedd llawer o dimau YOT yn ymwybodol o hyn cyn y cyfnod clo a rhai eisoes yn darparu cymorth arbenigol (er enghraifft yn Hampshire a Medway). Mae'r ffaith bod plant wedi gorfod aros adra dros y cyfnod clo wedi gwaethygu tensiynau, gyda rhieni'n aml yn wynebu risg uwch oddi wrth eu plant. Drwy fod adra gyda'i gilydd, heb yr amser a'r lle arferol i ffwrdd oddi wrth ei gilydd, roedd perthnasau weithiau wedi gwaethygu gan arwain at drais.

Mae ymchwilwyr o brifysgolion Manceinion a Rhydychen[16] wedi cynnal arolwg o 104 o rieni gyda phrofiad blaenorol o drais plant yn erbyn rhieni, a 47 o weithwyr cymdeithasol a fu'n gweithio gyda'r teuluoedd hyn. Yn ôl yr arolwg dywedodd 70% o'r rhieni fod trais wedi gwaethygu dros y cyfnod clo cyntaf, dywedodd 69% o ymarferwyr fod mwy o achosion wedi eu cyfeirio atynt am y rheswm hwn, a dywedodd 64% fod y broblem wedi gwaethygu.

Er bod trais yn y cartref wedi cael sylw yn y cyfryngau a chymorth ariannol wedi'i roi i wasanaethau i helpu dioddefwyr, nid oedd y math hwn o droseddu'n cyflwyno risg uwch o ymddygiad treisgar gan blant yn erbyn rhieni. Gwelodd arolygwyr enghreifftiau lle'r oedd timau YOT wedi adnabod hyn ac wedi cynyddu cyswllt eu staff cymorth magu plant.

### Plant mewn gofal a leolir y tu allan i'w hardaloedd

Maes arall lle'r oedd yr ymarfer ar ddechrau'r pandemig wedi codi cwestiynau oedd yng nghyswllt plant mewn gofal. Roedd plant bregus yn dal i gael eu lleoli mewn cartrefi plant y tu allan i'w hardaloedd dros y cyfnod clo ac ar ôl ei godi. Pan oedd hyn yn digwydd, roedd y tîm YOT 'cartref' (ardal leol y plentyn) er hynny'n gofyn i'r YOT 'oddi ffwrdd', a fyddai'n derbyn y plentyn, gynnal cyswllt â'r plentyn tra byddai yno. Oherwydd bod y cyswllt hwn o bell, dros y ffôn neu drwy ddulliau eraill, nid oedd rheswm pam na allai'r YOT 'cartref' fod wedi parhau i gysylltu â'r plentyn. Byddai hyn wedi rhoi parhad i'r plentyn.

Dywedodd staff YOT a phartneriaid fod presenoldeb llawer gwell mewn cynadleddau achos a fforymau aml-asiantaeth eraill wrth ddefnyddio rhith-gyfarfodydd ar-lein, ac roedd llawer am weld hyn yn parhau. Er hynny roedd yn tynnu sylw at ddiffyg mynediad at wahanol ddatabasau, fel gofal cymdeithasol plant, i rai staff YOT.

Mae rhai materion y bydd angen i reolwyr ac arweinwyr y timau YOT eu hystyried wrth gynllunio at y dyfodol a chyfnodau clo pellach o bosib. Mae'r rhain yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth a'r 'gagendor digidol' i staff a phlant – rhai gyda a heb fynediad at liniadur neu fand-eang – ac effaith yr ôl-waith achosion yn hel sy'n dechrau dod drwy'r llys.

At ei gilydd roedd y timau YOT wedi ymateb yn gyflym a chreadigol, gyda chymorth yr asiantaethau partner, i gwrdd ag anghenion y plant dan eu goruchwyliaeth.


---


[16] Condry, R., Miles, C., Brunton-Douglas, T. a Oladapo, A. (2020). Experiences of Child and Adolescent to Parent Violence in the Covid-19 Pandemic. Prifysgol Rhydychen.

# Canfyddiadau arolygiadau cyn Covid-19


### A) Trosolwg

**Ffigwr x: Cyfran sgoriau cyffredinol y 26 o dimau YOT a arolygwyd yn 2018/19 a'r 16 a arolygwyd yn 2019/2020**




**Ffigwr 4: Sgoriau darparu sefydliadol cyfartalog ar gyfer y 26 o dimau YOT a arolygwyd yn 2018/10 a'r 16 YOT a arolygwyd yn 2019/2020**




Dros y 12 mis diwethaf rydyn ni wedi sgorio llywodraethu ac arweinyddiaeth yn 'Rhagorol' mewn dau wasanaeth, a 'Da' mewn pedwar arall. Mae hyn yn cyfateb i tua 38% o'r gwasanaethau a arolygwyd gennym ac yn golygu bod y 63% wedi eu sgorio fel 'Angen

gwella’ neu ‘Anfoddhaol’.[17] Dengys y canfyddiadau hyn fod lle sylweddol i wella pa mor effeithiol yw llywodraethu ac arweinyddiaeth yr YOS.

Roedd y prif wendidau’n ymwneud â:

- diffyg craffu o bartneriaethau gan Fyrddau Rheoli.
- dealltwriaeth brin o anghenion plant ar lefel strategol.
- staff ddim yn ymwybodol o’r blaenoriaethau strategol a’u rôl yn eu cyflawni.
- Nid yw partneriaethau, gan gynnwys addysg, yn blaenoriaethu na’n cwrdd yn foddhaol ag anghenion plant YOS.

Aseswyd fod ansawdd goruchwyliaeth o waith achos gan reolwyr yn is yn y timau YOT a arolygwyd yn ail flwyddyn y rhaglen arolygu hon. Yn 2018/2019 aseswyd fod goruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol mewn dau o bob tri achos. Yn 2019/2020 roedd yn ddigon da mewn ychydig dros hanner yr achosion a arolygwyd. Lle’r oedd yr oruchwyliaeth gan reolwyr yn anfoddhaol, roedd diffyg her ac nid oedd yn ddigon trylwyr: nid oedd yn cynnig cyfeiriad clir, nid oedd gweithredu’n cael ei ôl-ddilyn ac nid oedd tystiolaeth bod achosion yn cael eu huwchgyfeirio’n briodol.

Er y gwelsom enghreifftiau o wasanaethau rhagorol yn 2019/2020 – tîm YOT Camden er enghraifft, sef y gwasanaeth troseddwyr ifanc trefol cyntaf, a’r cyntaf yn Llundain, i gael y sgôr hwn – roedd gennym bryderon sylweddol iawn am wasanaethau trefol eraill, yn enwedig timau YOT Caerdydd, Birmingham a Bradford.

Pan arolygwyd Birmingham sef y tîm YOT mwyaf yn y wlad, edrychodd yr arolygwyr ar bron i gant o achosion gan farnu bod yr ymarfer yn anfoddhaol mewn pum maes oherwydd ansawdd y gwaith i ddiogelu plant ac amddiffyn y cyhoedd. Roedd Bradford, gwasanaeth mawr arall, yn anfoddhaol ar draws pob safon parth dau, gyda chanfyddiadau arbennig o wael i’r gwaith a wneir i gadw plant a’r cyhoedd yn ddiogel. Felly hefyd, roedd gennym bryderon difrifol am ansawdd y gwaith gan dîm YOT Caerdydd a aseswyd i fod yn anfoddhaol yn erbyn pob un o’r 12 safon.

Yn y tri gwasanaeth hwn, cawsom fod heriau wedi bod gydag arweinyddiaeth y timau. Roedd dau wasanaeth wedi cael sawl pennaeth newydd mewn amser byr, gan greu ansefydlogrwydd. Mewn un YOT, nid oedd digon o gapasiti wedi bod yn yr uwch-dîm rheoli fel bod rheolwyr wedi cael eu tynnu mewn sawl cyfeiriad i gadw pethau i fynd. Roedd hyn wedi gwneud darparu Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yr YOS, a monitro gwelliannau, yn anodd iawn. Er bod staff ar y cyfan yn gwneud eu gorau wrth weithio gyda phlant, nid oedden nhw’n derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i dywys a gwella eu hymarfer. Roedd diffyg craffu perfformiad cyson gan reolwyr yn golygu nad oedd diffygion wedi eu hadnabod na’u datrys yn effeithiol.

Mewn gwasanaethau lle sgoriwyd y llywodraethu a’r arweinyddiaeth fel ‘Anfoddhaol’, roedd prinder systemau effeithiol i adnabod a rheoli problemau a risgiau. Nid oedd camau lliniaru wedi dangos digon o effaith. Nid oedd unrhyw bolisi uwchgyfeirio clir na phroses i ddileu rhwystrau i weithio'n effeithiol ar y cyd ar lefel weithredol ac uwch. Ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o dystiolaeth dysgu i wneud gwelliannau, ac ni chymerwyd camau pan oedd angen i wella gwasanaethau. Prin oedd y ddealltwriaeth o anghenion y plant sy'n cael eu goruchwylio gan y YOS. Nid oedd proffilio'n ddigon soffistigedig ac ni ddefnyddiwyd gwybodaeth yn foddhaol. Nid oedd anghenion plant yn cael eu cwrdd ac ni allai plant gael mynediad at rai gwasanaethau'n brydlon, neu ddim o gwbl. Ychydig iawn o sicrhau ansawdd

[17] Mewn rhai achosion, oherwydd bod y ffigurau wedi eu cyfannu i fyny neu lawr, efallai na fydd y cyfanswm yn 100%.

neu werthuso gwasanaethau oedd yn digwydd. O ganlyniad, nid oedd arweinwyr a rheolwyr yn monitro ansawdd gwasanaethau'n ddigonol na'n ceisio ateb diffygion neu ddirywiad mewn gwasanaethau neu yng nghanlyniadau plant sy'n hysbys i'r YOS.

Ond lle sgoriwyd llywodraethu ac arweinyddiaeth fel 'Da' neu 'Rhagorol', roedd gan y Byrddau oruchwyliaeth weithredol dros ffurf a gweithrediad y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid. Roedden nhw'n gwneud defnydd deallus o'r cyfoeth o ddata a gwybodaeth leol gan yr YOS a phartneriaid i helpu i fesur llwyddiant y mesurau strategol; i adnabod a rhoi sylw i unrhyw risg o ddarparu'r mesurau hyn; ac i adnabod unrhyw ystyriaethau a meysydd dysgu pellach.

Yn y gwasanaethau hyn, roedd y partneriaid statudol i gyd wedi eu cynrychioli ar y Bwrdd. Roedd presenoldeb da gan aelodau'r Bwrdd, oedd â statws swydd digon uchel i wneud penderfyniadau ac ymrwymo adnoddau. Roedd cyd-berchnogaeth o ddarparu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, oedd yn gosod y cyfeiriad i ddarparu gwasanaethau, ac roedd yr holl bartneriaid perthnasol yn deall rôl a chyfrifoldeb eu hasiantaeth mewn atal a / neu leihau troseddu.

### Rôl y pennaeth gwasanaeth

Yn ogystal â Byrddau Rheoli cryf, roedd gan dimau YOT da a rhagorol reolwyr cryf a sefydlog. Gwelsom fod rôl pennaeth gwasanaeth YOT yn hollbwysig i lwyddiant y tîm Maen nhw'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol ar-y-cyd ag asiantaethau partner, ac am reoli gweithrediad yr YOS yn unol â'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r pennaeth gwasanaeth yn rheoli staffio, cyllid ac adnoddau'r YOT. Drwy fynychu cyfarfodydd strategol, mae'r pennaeth gwasanaeth yn sicrhau bod plant YOS yn cael eu hystyried gan agendâu gwasanaethau eraill. Maen nhw'n gyfrifol am wella perfformiad a darparu gwasanaeth o safon uchel ar draws yr YOS, am wella canlyniadau i blant a chynorthwyo eu diogelwch a'u lles, a hefyd am roi blaenoriaeth i gadw dioddefwyr a'r cyhoedd yn ddiogel.

Y pennaeth gwasanaeth hefyd yw'r cyswllt allweddol â phartneriaid statudol fel yr heddlu a'r gwasanaethau plant, prawf ac iechyd, a gyda rhanddeiliaid eraill fel y llysoedd a'r sector gwirfoddol, gan hyrwyddo cydweithrediad a gweithio ar-y-cyd. Mae'r canllawiau ar bartneriaethau troseddwyr ifanc cyfoes effeithiol yn cydnabod yr her o ddod ag asiantaethau at ei gilydd i ateb anghenion plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid a rôl y pennaeth gwasanaeth yn hyn. Yn ôl y canllawiau, ni ddylai penaethiaid gwasanaeth gael eu 'claddu' yn strwythur rheoli unrhyw asiantaeth bartner, ac yn hytrach y dylai fod ganddynt 'fynediad clir, fel y bo'n briodol, at brif weithredwr yr awdurdod lleol, os yw gwahaniaethau rhwng asiantaethau'n rhwystro gwaith y tîm troseddwyr ifanc'.[18]

Mewn gwasanaethau YOS oedd yn perfformio'n wael, roedd cael pennaeth newydd neu drefniadau interim anaddas, wedi cael effaith negyddol ar ansawdd y gwasanaeth. Mewn un YOT, roedd rheolwr o dîm tai wedi dirprwyo yn y swydd am gyfnod ac yna rheolwr arall o'r tîm gofal cymdeithasol plant, oedd â phortffolio mawr a dim digon o amser i'w roi i'r YOT.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r gwasanaethau 'Da' neu 'Rhagorol' bennaeth gwasanaeth cyson yn dangos dealltwriaeth gadarn o rôl, pwrpas a swyddogaeth y gwasanaeth Roedd y penaethiaid hyn yn integredig yn yr uwch-dîm gofal cymdeithasol ehangach ac yn derbyn cefnogaeth dda gan y bartneriaeth.

[18] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014). Modern Youth Offending Partnerships – Guidance on effective youth offending team governance in England.

## Cyllid i dimau YOT


Mae'r cyllid i dimau YOT wedi lleihau'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, o 39% rhwng 2011 a 2019, gyda chwymp cyson mewn cyllid o un flwyddyn i'r llall gan y ddwy ffynhonnell fwyaf sef grant canolog yr YJB a chyfraniadau awdurdod lleol.[19] Dim ond cyllid gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (gan ddechrau yn 2015) a Llywodraeth Cymru (i dimau YOT Cymru'n unig) a arhosodd fwy neu lai'r un fath. Mae rhai ffrydiau cyllid cenedlaethol y gall timau YOT unigol ymgeisio amdanynt, fel y Gronfa Gymunedol Atal Troseddau Cyllyll, cyllid MOPAC a'r Gronfa Ymyrryd yn Gynnar. Gwelodd arolygwyr enghreifftiau o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar waith penodol gyda phlant.

Er bod y cyllid i lawr, mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n ymuno'n swyddogol â'r System Cyfiawnder Ieuenctid, ac felly'n rhan o lwythi achosion statudol timau YOT, i lawr yn fwy fyth. Ar y cyfan mae hyn wedi diogelu faint o gyllid YOS sy'n cael ei wario ar bob achos dan oruchwyliaeth statudol, gan gadw'r llwythi achosion yn gytbwys a diogelu rhai o'r gwasanaethau arbenigol sy'n rhan annatod ohonynt (er nid yr ystod ehangach o wasanaethau ieuenctid awdurdod lleol lle mae'r cyllid, yn ôl arolwg diweddar gan yr YMCA, i lawr o 71% mewn termau real rhwng 2010/11 a 2018/19.[20]

Yn yr 16 YOT a arolygwyd yn 2019/2020, roedd ystod o lwythi achosion i bob rheolwr achos, ac yn wahanol iawn i'n harolygiadau prawf, ychydig iawn o weithwyr YOT a ddywedodd na allent ymdopi â'u llwythi achosion. Gall yr achosion amrywio o ran hyd a chymhlethdod, o orchymyn cymunedol cymharol ddidrafferth i blentyn risg uchel yn cael ei ryddhau o'r carchar. Ar draws yr 16 YOT a arolygwyd, gwelsom amrywiadau mawr mewn faint o gyllid oedd ar gael iddynt. Roedd y cyllid i un YOT cyfwerth â £4,585 i bob achos dan oruchwyliaeth (yr isaf o'r gwasanaethau a arolygwyd), ar sail data'r YJB, ond roedd y cyllid uchaf cyfwerth â £41,953 i bob achos dan oruchwyliaeth.[21] Sgoriwyd y ddau wasanaeth fel rhai 'Da'. Nid yw'r timau YOT a sgoriwyd yn 'Anfoddhaol' dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o reidrwydd, wedi bod y rhai gyda'r gwariant isaf fesul plentyn; yn wir, roedd gan un gwasanaeth yr ail wariant uchaf. At ei gilydd ni welsom unrhyw gysylltiad rhwng cost ac ansawdd y gwasanaethau.

[19] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020). Youth Justice Statistics: 2018-2019.
[20] YMCA (2020). Out of service.
[21] Nid yw'r cyfrifiad hwn yn cynnwys dedfrydau cymunedol anstatudol oherwydd nid oes data cenedlaethol arnynt, ond medrant gyfrif am gyfran sylweddol o rai llwythi achosion.

### Ffigwr 5: Y berthynas rhwng cyllid achosion a sgoriau arolygu




## B) Goruchwylio achosion llys

Dedfrydir y rhan fwyaf o blant yn y llysoedd ieuenctid. Llysoedd ynadon arbennig yw'r rhain i blant rhwng 10-17 oed. Mae gan lys ieuenctid naill ai farnwr ardal neu dri o ynadon. Rhaid i ynadon sy'n eistedd mewn llysoedd ieuenctid dderbyn hyfforddiant arbennig. Maen nhw'n llai ffurfiol na'r llysoedd ynadon a gelwir y plant wrth eu henwau cyntaf. Gellir ystyried troseddau 'diannod', neu rai 'naill ffordd neu'r llall', yn y llys ieuenctid. Defnyddir Llys y Goron i ddedfrydu troseddau 'ditiadwy' mwy difrifol.[22]

Gall y llys roi un o dair prif ddedfryd gymunedol. Gorchymyn cyfeirio at wasanaeth, gorchymyn adsefydlu ieuenctid, neu orchymyn gwneud iawn.

Gall y llys ieuenctid hefyd wneud gorchymyn cadw a hyfforddi sy'n gallu para rhwng pedwar mis a dwy flynedd, ac mae'n cynnwys elfen o garcharu.

[23] Ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol, Llys y Goron sy'n dedfrydu a gall y llys hwn orchymyn cyfnod hirach dan glo.[24]
Dros y 10 mlynedd diwethaf mae lleihad sylweddol wedi bod yn nifer y plant a ddedfrydir yn y llys. Cafodd plant eu dedfrydu gan lys 19,300 o weithiau yn 2019 sef y flwyddyn fwyaf diweddar y mae ffigurau ar gael. Mae'r ffigur hwn 78% yn is na 10 mlynedd yn ôl. Mae'r gyfran o'r gwahanol fathau o ddedfryd wedi aros fwy neu lai'r un fath, gyda'r rhan fwyaf yn ddedfrydau cymunedol (66%) a 7% yn cael eu dedfrydu i garchar. O'r dedfrydau cymunedol roedd 65% yn orchmynion cyfeirio at wasanaeth, 34% yn orchmynion adsefydlu ieuenctid, ac 1% yn orchmynion gwneud iawn.

---

[22] Mae troseddau'n cael eu categoreiddio fel rhai diannod, naill ffordd neu'r llall, neu dditiadwy – ar sail pa mor ddifrifol yw'r trosedd.
[23] Gov.uk. Community sentences if you are under 18.
[24] Mae dedfrydau Adran 91 ac Adran 92 yn hirach na dwy flynedd a gellir ond eu rhoi pan fydd y trosedd yn cael ei ystyried yn un difrifol iawn.

Roedd y 27% o ddedfrydau eraill yn cynnwys dirwyon, dedfrydau rhyddhau amodol a llwyr, a dedfrydau eraill llai cyffredin. Gan amlaf nid yw'r timau YOT yn rhan o'r dedfrydau hyn.[25]

Yn y 10 mlynedd diwethaf mae cynnydd o 10% wedi bod mewn dedfrydu plant am droseddau treisgar. Roedd hyn am ystod eang iawn o droseddau. Mae'n cynnwys ymosodiad cyffredin, a ystyrir fel rheol i fod yn llai difrifol, achosi niwed corfforol difrifol, a bod ym meddiant arf. Y prif fathau o drosedd gan blant a ddedfrydwyd y llynedd oedd trais yn erbyn y person (30% o droseddau), dwyn a bod ym meddiant nwyddau wedi eu dwyn, a difrod troseddol.[25]

Edrychodd ein harolygwyr ar ystod o achosion ym mhob YOT a dderbyniodd ddedfryd llys. Roedd hyn yn cynnwys gorchmynion cyfeirio at wasanaeth, sef y rhai mwyaf cyffredin o'r gorchmynion llys a arolygwyd, ac achosion carcharu, sef 14% o'r achosion. Roedd timau YOT yn cytuno bod llwythi achosion llys bellach yn llai, ond eu bod yn fwy cymhleth.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd ychydig dros chwarter o'r achosion llys a arolygwyd wedi eu hasesu fel rhai oedd yn cyflwyno risg uchel o niwed i eraill, gyda chynnydd yn nifer yr achosion a aseswyd i fod yn cyflwyno pryderon uchel ynghylch diogelwch a lles, sef 34% yn arolygiadau 2018/2019 gan godi i 39% yn 2019/2020. Mae mymryn o gynnydd hefyd wedi bod yn y ganran o achosion a arolygwn sy'n derbyn dedfryd llys am droseddau treisgar, a chynnydd yn y ganran o blant sy'n cael eu hadnabod fel du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig, gan godi o 28% yn 2018/19 i 40% o achosion ôl-lys yn arolygiadau 2019/2020 .

Mae ein harolygwyr yn bryderus o weld cynnydd sylweddol yn yr amser rhwng pryd y cafodd y trosedd ei gyflawni gan blentyn, a'r gwrandawiad a'r ddedfryd yn y llys. Mae hyn yn bennaf oherwydd proses yr heddlu o 'ryddhau er mwyn ymchwilio',[26] gyda mechnïaeth weithiau'n cael ei godi a phlant felly'n cael eu rhyddhau am gyfnodau hir, weithiau am gyn hired â blwyddyn, fel bo'r heddlu'n gallu ymchwilio.

Mae'r oedi hyn cyn i achosion ddod i'r llys yn debygol o fod cael ei waethygu oherwydd pandemig Covid-19, a arweiniodd at orfod cau llawer o'r llysoedd dros dro. Roedd ôl-waith y llysoedd ieuenctid wedi cynyddu o 55% erbyn diwedd 2020 o'i gymharu â blwyddyn ynghynt. Amrywiodd y cynnydd hwn rhwng 33% yn Sir Efrog a Humberside i 97% yn ne Llundain.[27] Rydyn ni'n disgwyl i dimau YOT weld cynnydd siarp mewn gwaith llys o hydref 2020 ymlaen wrth i'r llysoedd fynd drwy'r ôl-waith hwn ac wrth i blant a ryddhawyd er mwyn ymchwilio gael eu cyhuddo â throseddau.

Mae'r oedi hyn yn ei gwneud yn anoddach cwblhau asesiadau ac ymyriadau oherwydd ni fydd y plentyn yn cofio manylion y trosedd, er enghraifft sut yr oedden nhw'n teimlo neu pam y gwnaethant bethau. Mae'n creu gorboeni hirdymor wrth iddynt aros i'r system ddelio â'u cyhuddiad, gan ei gwneud yn anodd iddynt gael trefn ar eu bywydau unwaith eto.

Ym mhob arolygiad YOT edrychwn yn fanwl ar sampl o achosion a ddedfrydwyd gan y llys. Asesir pob un o'r achosion hyn yn erbyn pedair safon allweddol i fesur ansawdd yr asesiad cychwynnol, y cynlluniau a gynhyrchwyd, pa mor dda y cafodd y cynlluniau hynny eu gweithredu wedyn, a gafodd cynnydd gyda'r cynlluniau ei adolygu a pha gamau a gymerwyd pan newidiodd amgylchiadau'r person ifanc.

Yn ein harolygiadau yn 2019/2020, roedd tri YOT trefol mawr i gyd yn perfformio'n wael o ran y gwaith ôl-lys hwn. Y rhain oedd Birmingham, Bradford a Chaerdydd. Oherwydd eu bod i gyd yn YOT mawr, mae eu perfformiad gwael wedi cael effaith ar y data perfformiad yn gyffredinol ar gyfer 2019/2020, oedd yn is nag yn 2018/2019.


---

[25] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020). [Ystadegau cyfiawnder ieuenctid 2018-2019](#).

[26] Dechreuwyd ymarfer 'rhyddhau er mwyn ymchwilio' yn 2017 ac ers hynny mae wedi disodli 'rhyddhau ar fechnïaeth yr heddlu' i raddau helaeth.

[27] Data dros dro gan Wasanaeth Erlyn y Goron, 2020.

**Ffigwr 6: Sgoriau cyfartalog gwaith dedfrydau llys ar gyfer y 26 YOT a arolygwyd yn 2018/2019 a'r 16 YOT a arolygwyd yn 2019/2020**




Ar draws ein holl safonau arolygu, aseswn bob achos yn erbyn tair cyfres o feini prawf allweddol:


**Ymatal rhag troseddu**: a gafodd yr holl ffactorau a allai fod yn gysylltiedig â throseddu plentyn – rhai negyddol ac efallai gwarchodol – eu hadnabod a'u cynllunio ar eu cyfer?

**Diogelwch a lles:** a yw'r holl risgiau i ddiogelwch a lles plentyn wedi eu hadnabod a chael sylw?

**Risg o niwed i eraill:** a roddwyd sylw ac a gynlluniwyd ar gyfer holl risgiau posib y plentyn i bobl eraill?

Fel gyda'n harolygiadau yn 2018/2019, yn 2019/2020 barnwyd fod y timau YOT yn dda am asesu, cynllunio a darparu ymyriadau'n ymwneud â ffactorau ymatal, ond nid cystal am wneud hyn ar gyfer ffactorau diogelwch a lles a'r risg o achosi niwed difrifol. Yn wir, aseswyd pob agwedd ar reoli'r risg o niwed i eraill yn fwy negyddol yn 2019/2020. O ganlyniad, rydyn ni wedi argymell bod hyfforddiant yn cael ei roi ar asesu a rheoli risg mewn chwech o'n hadroddiadau eleni – un o'n hargymhellion mwyaf cyson.

**Ffigwr 7: Canran yr achosion a sgoriwyd fel 'Da' neu 'Rhagorol' o ran ymatal, diogelwch a lles, a'r risg o niwed ar gyfer achosion llys 2019/2020**




## Asesu

At ei gilydd cawsom fod ansawdd asesu'r risg o niwed i eraill yn dda, gydag wyth allan o'r 16 gwasanaeth wedi sgorio'n dda neu ragorol, a dim ond dau fel anfoddhaol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd asesiadau'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr neu ddioddefwyr, gyda chyfle ar gyfer cyfiawnder adferol yn cael ei ystyried. Er i asesiadau yn 2018/2019 adnabod a dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan blentyn mewn tua thri chwarter yr achosion, aeth hyn i lawr i ychydig llai na dau allan o bob tri achos yn y gwasanaethau a arolygwyd yn 2019/2020.

## Cynllunio

Wrth ystyried cynllunio, edrychodd arolygwyr ar ystod o ddogfennau cynllunio ac nid dim ond ar y cynllun llwybr allan o offeryn asesu 'AssetPlus' cymeradwy'r YJB. Roedd ansawdd y cynllunio ar gyfer diogelwch a lles a risg o niwed i eraill, mewn achosion ôl-lys, yn is yn arolygiadau 2019/2020 nag yn arolygiadau 2018/2019. Wrth i rai gwasanaethau YOS symud at gynlluniau mwy 'cyfeillgar i blant', ymddengys nad oedd problemau'n ymwneud â risg o niwed i eraill a diogelwch a lles yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau hyn, ac nad yw elfennau o'r gwaith pwysig hwn yn cael eu cynnwys yn y broses gynllunio. Roedd cynlluniau'n cael eu cynhyrchu o ran beth fyddai'r plentyn ei wneud tra byddai dan ofal y tîm YOT ond heb nodi'n union pa waith y byddai'r YOT ac asiantaethau eraill hefyd yn ei wneud i gadw'r plentyn neu'r cyhoedd yn ddiogel. Yn yr achosion lle'r oedd peth cynllunio wrth gefn, roedd hyn yn aml yn ddim mwy nag adolygu'r ddogfen asesu a thrafod gyda'r rheolwr, ac nid oedd yn cynnwys cynlluniau clir ac ymarferol a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i'r plentyn neu'r dioddefwr, neu ddioddefwr posib.

Yn 2019/2020 sgoriwyd naw YOT naill ai fel 'Anfoddhaol' neu 'Angen gwella' o ran cynllunio, gyda dim ond dau'n 'Rhagorol'.

Yn arolygiadau 2018/2019 roedd y cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl yn ddiogel mewn dau o bob tri achos a sylw'n cael ei roi i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr mewn cyfran debyg. Aeth hyn i lawr i 60% ar gyfer cynllunio yn 2019/2020. Ar draws y ddwy flynedd, roedd gwaith cynllunio'n nodi'r mesurau rheoli ac ymyriadau angenrheidiol i hybu diogelwch pobl eraill mewn 69% o achosion am y naill beth a 65% am y llall, ond nid oedd bob amser yn disgrifio trefniadau wrth gefn effeithiol ac angenrheidiol i reoli risg (59% am y naill beth a 51% am y llall).

## Gweithredu a darparu

Ar ôl asesu ansawdd yr asesiad cychwynnol a'r cynllunio, mae ein hasesiadau o achosion unigol yna'n arolygu a gafodd y cynlluniau hyn eu darparu yn y pen draw. A dderbyniodd y plentyn yr holl ymyriadau yr aseswyd fod ei angen arnynt, er enghraifft o ran eu haddysg neu anghenion iechyd? A orfodwyd y ddedfryd yn iawn? A aethpwyd ar ôl unrhyw dor-gorchymyn? A wnaeth y plentyn fynychu eu hapwyntiadau a dilyn yr amodau oedd ynghlwm wrth y gorchymyn – er enghraifft o ran cadw draws o leoliadau neu unigolion penodol, neu gydymffurfio â gofynion cyrffyw?

**Ar gyfer gweithredu a darparu, o'r 16 YOT a arolygwyd yn 2019/2020 barnwyd bod tri'n 'Rhagorol' ar gyfer achosion ôl-lys a dim ond dau YOT yn 'Anfoddhaol'.**

Er y byddai gweithredu gwasanaethau i hyrwyddo ymatal, ar ei ben ei hun, wedi derbyn sgôr 'Rhagorol', mewn dros 80% o'r achosion a arolygwyd yn foddhaol ar y maen prawf hwn, aeth yr ansawdd i lawr i 'Da' ar y risg o niwed i eraill. Y prif reswm am hyn oedd i amddiffyn dioddefwyr neu ddioddefwyr posib, gyda'r arolygwyr yn nodi nad oedd y gwaith hwn bob amser yn cael ei wneud i safon foddhaol.

Ychydig iawn o wahaniaeth a welsom rhwng canfyddiadau arolygiadau 2018/2019 a 2019/2020 o ran gweithredu a darparu gwasanaethau i gadw pobl eraill yn ddiogel. Ar y cyfan, barnwyd bod gweithredu a darparu gwasanaethau i gadw pobl eraill yn ddiogel yn effeithiol mewn 68% o achosion yn 2019/2020, a digon o sylw'n cael ei roi i amddiffyn dioddefwyr, neu ddioddefwyr posib, mewn 65% o achosion. Barnodd staff ac arolygwyr fod gwasanaethau boddhaol ar gael i gynorthwyo i reoli a lleihau'r risg o niwed i eraill mewn 70% o achosion. Cymerwyd camau gorfodi'n briodol mewn 83% a 87% o achosion perthnasol.

## Adolygu

Mae angen adolygu achos lle cafwyd unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau, neu o fewn chwe mis i ddechrau'r gorchymyn. Roedd y darlun cyffredinol o ran adolygu'n gymysg iawn gyda hanner y timau YOT a arolygwyd wedi eu sgorio fel 'Angen gwella' neu 'Anfoddhaol'. Yn aml roedd hyn oherwydd bod yr offeryn asesu, AssetPlus, ond wedi'i adolygu'n rhannol, gyda chymysgedd o wybodaeth hen a newydd yn y ddogfen, gan ei gwneud yn anoddach penderfynu beth oedd sefyllfa bresennol y plentyn. Yr elfen wannaf ar draws yr achosion ôl-lys oedd adolygu'r risg o niwed i eraill.

Yn arolygiadau 2018/2019 a 2019/2020 roedd adolygu ymatal yn dda, felly hefyd adolygu anghenion diogelwch a lles y plentyn. Fodd bynnag, sgoriwyd adolygu risg plant o achosi niwed i eraill fel 'Angen gwella' yn 2019/2020. At ei gilydd, barnwyd bod y broses adolygu'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl eraill yn ddiogel mewn 66% o achosion yn 2018/2019, ond dim ond mewn 59% o achosion yn 2019/2020. Yn siomedig, nid oedd adolygu bob tro'n arwain at wneud addasiadau angenrheidiol i'r cynllun gwaith er mwyn gallu rheoli a lleihau'r risg o niwed. Roedd hyn yn cael ei wneud yn foddhaol dim ond mewn 52% o'r achosion yn 2019/2020.

# Dedfrydau allan-o-lys

Gwelodd y 10 mlynedd diwethaf newid polisi cymeradwy iawn tuag at droi plant ymaith o broses ffurfiol y llys am droseddau llai difrifol, o ystyried y dystiolaeth ymchwil fod hyn yn gallu gwneud plant yn fwy tebygol o aildroseddu.[28]

Yn achos plentyn a holir am drosedd llai difrifol heb lawer o rybuddiadau neu euogfarnau blaenorol, os o gwbl, ac sy'n fodlon cyfaddef bai, bydd gan yr heddlu ystod o opsiynau ar sut i symud ymlaen. Bydd y rhain yn amrywio o un heddlu i'r llall ond medrant gynnwys 'cyfiawnder adferol stryd' lle gallai'r plismon fynnu bod plentyn yn gwneud iawn am y trosedd yn syth, drwy ddychwelyd eitem wedi'i ddwyn er enghraifft; rhybudd canabis, lle mae'n rhaid i'r plentyn fynychu rhaglen ymwybyddiaeth canabis; neu rybuddiad ieuenctid lle mae'r sancsiwn yn cael ei gofnodi'n swyddogol ond nid oes raid i'r plentyn o reidrwydd gwblhau unrhyw waith. Ar gyfer rhybuddiad amodol ac ail rybuddiad ieuenctid, bydd angen cyfeirio'r plentyn at y tîm YOT am asesiad. Mewn achosion eraill, mater o bolisi lleol yw pa blant fydd yr heddlu'n eu cyfeirio at y tîm YOT a pha ymyriad a ddarperir i'r plentyn.

Ddeng mlynedd yn ôl, roedd y ffocws ar ddedfrydau statudol allan-o-lys fel rhybuddiadau ieuenctid neu rybuddiadau amodol ieuenctid, sy'n creu cofnod troseddol – yn fwy diweddar, mae'r pwyslais wedi newid lle mae'r heddlu a thimau YOT yn cytuno ar opsiynau anstatudol, anffurfiol a elwir yn aml yn 'orchmynion cymunedol', yn lle mynd i'r llys.

Mae troi plant ymaith o'r llys, lle bo'n briodol, i'w groesawu'n fawr iawn. Mewn gwasanaethau fel rhai Bury, Sir Rhydychen, Rochdale a Wrecsam, gwelodd arolygwyr raglenni ymyriadau creadigol ac arloesol i ateb anghenion y plant hyn ac atal troseddu pellach. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn niffyg unrhyw ganllawiau a gwerthuso cenedlaethol. Mae hyn felly wedi creu'r hyn a ddisgrifiwyd gennym y llynedd fel 'loteri codau post' gyda defnyddio dedfrydau allan-o-lys, gyda pholisïau a phrosesau cynlluniau lleol yn amrywio'n eang iawn. Mewn un ardal a arolygwyd er enghraifft, nid oedd uchafswm o ran faint o ddedfrydau allan-o-lys y gallai plentyn ei dderbyn a gwelodd arolygwyr un enghraifft o blentyn wedi derbyn saith dedfryd adferol ieuenctid (yn Surrey). Mewn ardaloedd eraill roedd trothwy llym o un ar y math yma o ddedfryd i unrhyw blant rhwng 10-18 oed (South Tees).

### Achosion llys ac achosion allan-o-lys

O'i gymharu ag arolygiadau 2018/2019, roedd ansawdd yr oruchwyliaeth o achosion allan-o-lys yn is nag yn yr achosion a arolygwyd yn 2019/2020. Roedd cyfran yr achosion a ystyriwyd i fod yn foddhaol yn is mewn agweddau pwysig.

Er y cawsom fod gwasanaethau lleol yn dda am asesu, cynllunio a darparu ymyriadau'n ymwneud â ffactorau ymatal, nid oeddent cystal yng nghyswllt ffactorau diogelwch a lles a risg o niwed i eraill, gyda phob agwedd ar reoli'r risg o niwed i eraill wedi eu hasesu i fod fymryn yn waeth eu perfformiad yn 2019/2020. Felly mae ein hargymelliad bod angen hyfforddiant ar asesu a rheoli risg yr un mor berthnasol i achosion dedfrydau allan-o-lys ag i achosion llys.


O'i gymharu ag achosion ôl-lys, nid oedd y gwaith o reoli'r risg o niwed i eraill cystal o gwbl mewn achosion allan-o-lys. O'r herwydd bu'n rhaid i ni farnu bod yr asesu'n 'Anfoddhaol'

[28] Y Ganolfan Arloesi Cyfiawnder (2019). Youth diversion evidence and practice briefing: minimising labelling

gydag achosion allan-o-lys mewn saith gwasanaeth, o'i gymharu â dau 'Anfoddhaol' ar gyfer asesu achosion ôl-lys. Roedd cynllunio ar gyfer achosion allan-o-lys yn 'Anfoddhaol' mewn wyth YOS o'i gymharu â phump ar gyfer achosion ôl-lys. Mewn rhai ardaloedd, nid oedd defnyddio offeryn asesu mewnol wedi cynorthwyo rheolwyr achos i wneud asesiadau priodol, yn enwedig lle nad oedd capasiti i gofnodi dosbarthiad risg. Fodd bynnag, gwelodd arolygwyr enghreifftiau lle'r oedd defnyddio'r offeryn asesu mewnol wedi cynorthwyo asesu a chynllunio da. Roedd yr asesu'n 'Rhagorol' mewn dau YOT ar gyfer gwaith allan-o-lys, a phedwar YOT ar gyfer gwaith ôl-lys.

### Sgoriau ar gyfer goruchwylio achosion allan-o-lys

**Ffigwr 8: Sgoriau cyfartalog dedfrydau allan-o-lys ar gyfer y 26 YOT a arolygwyd yn 2018/2019 a'r 16 YOT a arolygwyd yn 2019/2020**




### Asesu

Roedd rhai gwasanaethau YOS wedi datblygu eu hofferyn asesu eu hunain ar gyfer dedfrydau allan-o-lys, a phan oedd y rhain yn cael eu gwneud yn dda, roedd yr asesiadau o safon dda. Fodd bynnag, roedd offerynnau mewnol yn fwy tebygol o fod yn anfoddhaol lle'r oeddent yn anghyflawn, gyda'r bwlch gan amlaf yn esboniad clir o'r risg o niwed i eraill a phryderon diogelwch a lles. Ar gyfer asesu gwaith allan-o-lys, dim ond un o'r gwasanaethau YOS a arolygwyd yn 2019/2020 oedd yn 'Rhagorol'; yn siomedig, roedd saith yn 'Anfoddhaol'.

Roedd asesiadau'n adnabod a dadansoddi'n glir unrhyw risg bosib o niwed i eraill gan y plentyn mewn dim ond 51% o'r achosion allan-o-lys a arolygwyd yn 2019/2020. Mewn nifer o achosion, roedd yr asesiadau'n canolbwyntio dim ond ar y trosedd ei hun a arweiniodd at y ddedfryd allan-o-lys, yn hytrach nag ar hanes blaenorol y plentyn.

### Cynllunio

Mae arolygwyr yn edrych ar ystod o ddogfennau cynllunio, nid dim ond y rhai yn AssetPlus. Roedd yn dda gweld bod llawer o dimau YOT wedi datblygu eu dogfennau cynllunio eu hunain, sy'n fwy cyfeillgar a dealladwy i'r plentyn unigol. Ar gynllunio ar gyfer dedfrydau

allan-o-lys a arolygwyd yn 2019/2020, unwaith eto dim ond un o'r timau YOT a arolygwyd oedd yn 'Rhagorol'; yn siomedig, roedd saith yn 'Anfoddhaol'.

Roedd cynllunio'n canolbwyntio'n foddhaol ar gadw pobl yn ddiogel dim ond mewn 55% o'r achosion allan-o-lys a arolygwyd yn 2019/2020. Mewn tua thraean, nid oedd y cynllunio'n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr. Roedd cynllunio wrth gefn, yn disgrifio beth fyddai'n digwydd pe bai'r risg yn cynyddu, yn foddhaol dim ond mewn 38% o achosion.

Fel y gwelsom gydag achosion ôl-lys, wrth i rai timau YOT symud at gynlluniau mwy 'cyfeillgar i blant', ymddengys nad yw materion yn ymwneud ag achosi risg i eraill, a diogelwch a lles, yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau hyn. Mae'r cynlluniau'n canolbwyntio mwy ar beth fydd y plentyn yn ei wneud, ac nid yw'r broses gynllunio'n cofnodi rhai elfennau o'r gwaith pwysig hwn, yn benodol beth fydd yr YOT yn ei wneud mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i reoli risg i'r plentyn ac i'r cyhoedd.

### Gweithredu a darparu

Dyfeisiwyd ymyriadau ar gyfer achosion allan-o-lys i fod yn fyr a llai dwys ond er hynny dylent fod yn bersonol i'r plentyn a dylid eu cyflwyno'n dda. Gallent gynnwys sesiwn neu ddwy gyda gweithiwr cyffuriau, ysgrifennu llythyr o esboniad i'r dioddefwr,[29] neu helpu'r plentyn i gael mynediad at wasanaethau prif ffrwd eraill. Gyda rhybuddiadau amodol statudol, mae'n gyfreithiol ofynnol i'r plentyn gwblhau'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun, a gellir cyfeirio'r plentyn at y llys ieuenctid am beidio â gwneud hyn; ar y llaw arall mae gweithgareddau mewn gorchymyn cymunedol anffurfiol yn wirfoddol yn bennaf ac nid oes cosb am fethu eu cwblhau. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, gall methu â chwblhau'r gweithgareddau mewn gorchymyn cymunedol arwain at gyfeirio'r achos yn ôl at y panel penderfyniadau am ddedfryd wahanol. Nid oes data cenedlaethol ar gyfraddau cwblhau ar gyfer gwahanol fathau o ddedfrydau allan-o-lys. Mae hyn yn fwlch difrifol yn ein gwybodaeth am ba mor effeithiol ydyn nhw.

Cawsom ar y cyfan fod timau YOT wedi parhau i wneud gwaith da'n rhoi sylw i'r ffactorau sydd wrth wraidd troseddau plentyn, gyda thri chwarter yr achosion allan-o-lys a arolygwyd gennym yn 2019/2020 yn foddhaol yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, roedd gweithredu a darparu gwasanaethau i ddiogelu pobl eraill ond yn foddhaol mewn 62% o achosion. Y prif reswm oedd oherwydd nad oedd amddiffyn dioddefwyr neu ddioddefwyr posib bob amser yn cael ei wneud i safon foddhaol.

### Gweithio ar-y-cyd

Mae ein safon sgorio olaf ar gyfer achosion allan-o-lys yn ymwneud ag ansawdd gweithio ar-y-cyd rhwng y gwasanaethau YOS a'r heddlu ar rybuddiadau amodol, oedd ar y cyfan yn dda. Roedd tua thri chwarter yr achosion a arolygwyd yn 2019/2020 yn foddhaol o ran pa mor effeithiol oedd y tîm YOT yn gweithio gyda'r heddlu ar weithredu'r ddedfryd allan-o-lys.

Yn ein harolygiad thematig ar-y-cyd o achosion ar-y-cyd a gyhoeddwyd yn 2018,[30] nodwyd ymarfer da gan y paneli penderfyniadau aml-asiantaeth. Roedd yn braf gweld defnydd parhaus o'r paneli hyn yn ein harolygiadau yn 2019/2020 er bod ansawdd mewnbwn y timau YOT i'r paneli hyn yn amrywio'n sylweddol.

Dangosodd ein harolygiadau fod strwythur ac aelodaeth o'r paneli allan-o-lys hefyd yn amrywio, gyda rhai ond yn cynnwys yr heddlu a'r YOT, ac eraill yn cynnwys asiantaethau partner fel gweithwyr dioddefwyr, gwirfoddolwyr cymunedol ac asiantaethau trydydd sector.

---

[29] Mae timau YOT yn aml yn defnyddio llythyrau esboniad yn hytrach na llythyrau ymddiheuro.

[30] Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (2018). Out-of-court disposal work in youth offending teams.

Roedd amrywiadau pellach o ran pryd yr oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud a faint o wybodaeth oedd ar gael i'r panel. Mae llawer o dimau YOT yn cwblhau'r asesiad llawn cyn cynnal y panel, gydag eraill yn cwblhau ymarfer sgrinio ar sail gwybodaeth cyn yr asesiad ffurfiol.

O ystyried pwysigrwydd cynyddol dedfrydau allan-o-lys, fe wnaethom ymgynghori'n gynharach eleni ar safon arolygu YOT newydd fel y gallwn sgorio timau YOT yn benodol ar eu trefniadau ar gyfer darpariaeth allan-o-lys effeithiol, a'r polisïau a'r prosesau i ategu hyn. Bydd hyn yn mynd yn fyw o'r gwanwyn 2021 ymlaen gan ddisodli'r safon bresennol ar weithio ar-y-cyd .[31]


### Gorchmynioncymunedol

Gorchymyn cymunedol yw'r term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio dedfryd yr heddlu am drosedd lefel isel nad yw'n cael ei chofnodi'n ffurfiol ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Maen nhw'n cael eu galw'n bethau gwahanol, gan ddibynnu ar bolisïau lleol, o frysbennu i ddedfryd adferiad ieuenctid, neu rywbeth arall. Er mwyn gweinyddu gorchymyn cymunedol, rhaid i'r plentyn gyfaddef eu rhan yn y trosedd a bod yn barod i dderbyn y gorchymyn. Y fantais i'r plentyn yw na fydd ganddynt gofnod troseddol ffurfiol am y trosedd, er y gellir eu cofnodi fel troseddwr ar ddatabas yr heddlu. Nid ydynt yn cael eu cofnodi fel troseddwr tro cyntaf os rhoddir gorchymyn cymunedol iddynt.

Mae llawer o dimau YOT wedi ymateb i'r cynnydd mewn gorchmynion cymunedol ac yn sgrinio ac asesu'r plant hyn i ganfod a ydynt yn cyflwyno risg o droseddu ymhellach. Gwneir hyn naill ai drwy wirio databasau asiantaethau partner, neu drwy offeryn sgrinio'r YOT. Os yw'r plentyn yn cael eu canfod i fod ag unrhyw ffactorau sy'n creu risg o droseddu pellach, gallai'r YOT ddarparu rhaglen o ymyrryd i gynorthwyo'r plentyn. Gall darparu gorchymyn cymunedol ddibynnu ar yr ymyriad hwn, neu gallai fod yn gwbl wirfoddol.

Dylai ymyriad yn dilyn gorchymyn cymunedol fod yn fyr ac weithiau cyn lleied ag un sesiwn asesu. Darperir y gwaith, ar gamddefnyddio sylweddau er enghraifft, gan asiantaeth bartner. Neu gallai'r YOT ddarparu ymyriad o hyd at dri mis gyda'r plentyn, a allai gynnwys eu cael i ail-afael yn eu haddysg, cymorth i reoli emosiynau neu waith i wella hunan-werth y plentyn.

**Ffigwr 9: Sgoriau cyfartalog ar draws y pedair safon allan-o-lys ar gyfer gorchmynion cymunedol o'i gymharu â dedfrydau allan-o-lys statudol 2019/2020**




[31] Arolygiaeth Prawf EM (2020). Response to the consultation and ratings for inspection of youth offending services.

Fel gydag arolygiadau 2018/2019, cawsom fod ein sgoriau ar gyfer ansawdd y gwaith ag achosion allan-o-lys yn aml yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan ansawdd gwael y gwaith o oruchwylio gorchmynion cymunedol anffurfiol, yn enwedig o ran lles a diogelwch y plentyn a'u risg o achosi niwed i eraill. O edrych yn fanwl ar y sgoriau ar draws ein holl gwestiynau allweddol (wele Atodiad 1), gyda'r rhan fwyaf ohonynt roedd cyfran y gorchmynion cymunedol a sgoriwyd fel 'Da' neu 'Rhagorol' yn llawer llai nag ar gyfer rhybuddiadau neu rybuddiadau amodol. Roedd llai na'u hanner yn foddhaol o ran nifer o gwestiynau'n ymwneud â chadw'r person ifanc eu hunain, neu'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ddiogel.

Yn ein harolygiad thematig o ddedfrydau allan-o-lys yn 2018, a wnaed ar-y-cyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS), gwelsom nad oes monitro cenedlaethol systematig o nifer y gorchmynion cymunedol a roddir, na faint o blant sy'n mynd ymlaen i dderbyn dedfryd bellach neu euogfarn ar ôl derbyn un ohonynt. Fe wnaethom wedyn argymell y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r YJB 'gynnwys gorchmynion cymunedol yn ystadegau aildroseddu'r system cyfiawnder troseddol a gwerthuso pa mor effeithiol ydynt o ran lleihau troseddu a gwella canlyniadau i blant'.[32]

Er yn falch o weld bod yr YJB nawr yn gofyn am ddata ar orchmynion cymunedol yn y ffurflenni data a ddychwelir gan dimau YOT unigol,[33] dros ddwy flynedd ymlaen o'r adroddiad hwnnw, nid oes data gwladol o hyd ar faint a ddefnyddir na pha mor effeithiol yw'r elfen gynyddol bwysig hon o'r system cyfiawnder ieuenctid. Cawsom fod gorchmynion cymunedol yn cyfrif am 37% o'r holl achosion allan-o-lys a arolygwyd yn 2019/2020, er bod hyn yn amrywio'n sylweddol (rhwng sero a 100%) rhwng gwahanol dimau YOT.

Fodd bynnag, gallwn gasglu rhywfaint o'r data arolygu sydd gennym bellach ar y 812 o achosion allan-o-lys a arolygwyd ar draws 42 o dimau YOT ers 2018.

Er enghraifft roedd bron i draean (30%) o'r gorchmynion cymunedol a arolygwyd gennym wedi eu rhoi am droseddau cyffuriau (bod ym meddiant canabis mae'n debyg); 40% am droseddau trais ac 8% am ddifrod troseddol. Gall ystod eang o droseddau fod ym mhob un o'r categorïau troseddau cyffredinol hyn. Gall troseddau cyffuriau gynnwys bod ym meddiant canabis at ddefnydd personol, a meddiant er mwyn cyflenwi. Yn yr un modd, gall trais yn erbyn y person fod yn drosedd ymosod cyffredin, a chynnwys gwthio rhywun neu drosedd trais difrifol. Rhoddir gorchmynion cymunedol fel arfer ond am y lleiaf difrifol o'r mathau hyn o drosedd.

[32] Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (2018). Out-of-court disposal work in youth offending teams.

[33] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020). Data Recording Requirements for Youth Offending Teams (April 2020 to March 2021)

**Tabl 4: Cymharu troseddau gorchmynion cymunedol â dedfrydau allan-o-lys statudol**

| Math o drosedd | CR | YC | YCC |
|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn y person (gan gynnwys affráe, anhrefn treisgar ac ymddygiad bygythiol, hyd yn oed lle nad oedd unrhyw ymosodiad corfforol) | 40% | 44% | 54% |
| Troseddau rhywiol | 2% | 0% | 2% |
| Bwrglera | 3% | 0% | 4% |
| Dwyn a bod ym meddiant nwyddau wedi eu dwyn | 9% | 13% | 4% |
| Difrod troseddol (nid cynnau tanau bwriadol) | 8% | 15% | 4% |
| Troseddau cyffuriau | 30% | 18% | 9% |
| Troseddau moduro | 3% | 3% | 3% |
| Troseddau eraill | 5% | 5% | 19% |

Nid oedd y rhan fwyaf o'r plant a dderbyniodd orchymyn cymunedol wedi bod mewn helynt o'r blaen (nid oedd gan 80% unrhyw sancsiwn blaenorol), o'i gymharu â 54% oedd wedi cael rhybuddiad ieuenctid, er bod gan 20 o'r plant yn ein sampl (9%) rhwng dau a phum sancsiwn blaenorol. Aseswyd bod traean o'r plant gyda gorchymyn cymunedol yn cyflwyno risg isel i'w lles a'u diogelwch eu hunain, a bod 50% yn cyflwyno risg isel i eraill, er mewn bron i draean o'r achosion nid oedd y lefelau lles a diogelwch a'r risg o niwed i eraill wedi eu cofnodi'n glir.

# Atodiad 1: Cymharu data achosion

Cymharu achosion plant gyda dedfrydau o garchar a phlant gyda dedfrydau cymunedol (demograffeg) ar sail data asesu achosion Arolygiaeth Prawf EM.

| | Carchar (N=462) | Dedfryd gymunedol (N=306) |
|---|---|---|
| **Rhywedd** | | |
| Bechgyn | 88% | 82% |
| Merched | 12% | 18% |
| **Oed** | | |
| 10–11 | 0% | 2% |
| 12–14 | 7% | 32% |
| 15–16 | 34% | 43% |
| 17 | 35% | 22% |
| 18+ | 23% | 0% |
| **Tarddiad ethnig** | | |
| Gwyn | 55% | 61% |
| Du, Asiaidd, Lleiafrif Ethnig | 41% | 34% |
| Rhywbeth arall | 2% | 1% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 2% | 4% |
| **Plentyn mewn gofal** | | |
| Ie | 24% | 9% |
| Na | 76% | 91% |
| **Anabledd** | | |
| Ie | 25% | 22% |
| Ddim yn glir | 10% | 15% |
| Na | 65% | 63% |
| **Nifer y sancsiynau blaenorol** | | |
| 0 | 39% | 73% |
| 1 | 21% | 18% |
| 2–5 | 30% | 9% |
| 6–10 | 6% | 0% |
| 11–20 | 2% | 0% |
| 20 + | 1% | 0% |

Cymharu achosion plant gyda dedfrydau o garchar a phlant gyda dedfrydau cymunedol: asesu risg o niwed a phryderon diogelwch a lles.

| | | |
|---|---|---|
| **Risg o niwed difrifol i eraill** | | |
| Isel | 23% | 46% |
| Canolig | 49% | 39% |
| Uchel neu uchel iawn | 27% | 4% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 1% | 11% |
| **Pryderon diogelwch a lles** | | |
| Isel | 15% | 36% |
| Canolig | 43% | 38% |
| Uchel neu uchel iawn | 40% | 16% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 1% | 10% |

**Data achosion llys**

| Asesu | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|
| Roedd yr asesiad wedi dadansoddi'n foddhaol sut i gynorthwyo'r plentyn i ymatal rhag troseddu | 85% | 84% |
| Roedd yr asesiad wedi dadansoddi'n foddhaol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel | 76% | 74% |
| Roedd yr asesiad wedi dadansoddi sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 75% | 67% |

| Cynllunio | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|
| Roedd y cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gynorthwyo'r plentyn i ymatal rhag troseddu | 82% | 80% |
| Roedd y cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw'r plentyn yn ddiogel | 69% | 61% |
| Roedd y cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 68% | 60% |

| Gweithredu a darparu | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|
| Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n helpu'r plentyn yn effeithiol i ymatal rhag troseddu | 79% | 83% |
| Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cynorthwyo'n effeithiol i gadw'r plentyn yn ddiogel | 74% | 74% |
| Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cynorthwyo'n effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel | 71% | 68% |

| Adolygu | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|
| Roedd yr adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu | 76% | 76% |
| Roedd yr adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel | 69% | 65% |
| Roedd yr adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel | 66% | 59% |

**Data achosion allan-o-lys**

| Asesu | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|
| Roedd yr asesiad wedi dadansoddi'n foddhaol sut i gynorthwyo'r plentyn i ymatal rhag troseddu | 74% | 73% |
| Roedd yr asesiad wedi dadansoddi'n foddhaol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel | 60% | 59% |


| | | |
|---|---|---|
| Roedd yr asesiad wedi dadansoddi sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 61% | 59% |


| **Cynllunio** | **2018/2019** | **2019/2020** |
|---|---|---|
| Roedd y cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gynorthwyo’r plentyn i ymatal rhag troseddu | 78% | 73% |
| Roedd y cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar sut i gadw’r plentyn yn ddiogel | 64% | 53% |
| Roedd y cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar sut i gadw pobl eraill yn ddiogel | 64% | 55% |

| **Gweithredu a darparu** | **2018/2019** | **2019/2020** |
|---|---|---|
| Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau’n helpu'r plentyn yn effeithiol i ymatal rhag troseddu | 79% | 75% |
| Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cynorthwyo’n effeithiol i gadw’r plentyn yn ddiogel | 71% | 66% |
| Roedd gweithredu a darparu gwasanaethau'n cynorthwyo’n effeithiol i gadw pobl eraill yn ddiogel | 66% | 62% |

| **Gweithio ar-y-cyd** | **2018/2019** | **2019/2020** |
|---|---|---|
| Mae argymhellion yr YOS yn ddigon seiliedig ar wybodaeth, yn dadansoddi’n ddigonol ac yn bersonol i’r plentyn, gan gynorthwyo penderfyniadau ar-y-cyd | 73% | 67% |
| Mae’r YOS wedi gweithio’n effeithiol gyda’r heddlu i weithredu’r ddedfryd allan-o-lys | 79% | 74% |

## Gorchmynion cymunedol




Community Resolutions as a percentage of all inspected out of court disposals - 2019/2020
North Yorkshire
47%
Birmingham
16%
Bury & Rochdale
53%
Medway
40%
Cardiff
55%
Oxfordshire
0%
Camden
0%
Luton
33%
Nottingham City
40%
Gloucestershire
100%
Southampton
13%
Bradford
4%
Brent
50%
Leicester City
0%
Croydon
75%
Leeds
64%
0%
20%
40%
60%
80%
100%

# Atodiad 2: Disgrifiad o Dîm Troseddwyr Ifanc

Mae Timau Troseddwyr Ifanc (YOT) yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 18 oed sy'n torri'r gyfraith, gyda rhai mor ifanc â 10. Mae'r plant hyn naill ai wedi eu dedfrydu gan lys neu wedi dod i sylw'r heddlu ond heb gael eu cyhuddo.

Yn yr achos hwn, byddai eu troseddau'n cael sylw allan-o-lys. Mae timau YOT yn gweithio gyda'r bobl ifanc hyn i'w helpu i fyw bywydau gwell a chadw draw o droseddu.

Maen nhw:

1. Yn helpu pobl ifanc yng ngorsaf yr heddlu
2. Yn rhoi cymorth yn y llys
3. Yn goruchwylio pobl ifanc ar ddedfryd gymunedol
4. Yn cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sydd dan glo ac yn eu helpu i setlo'n ôl yn y gymuned ar ôl dod allan
5. Yn darparu ymyriadau i'w helpu i wneud dewisiadau gwahanol mewn bywyd.

Mae timau YOT yn bartneriaethau statudol – rhaid iddynt yn gyfreithiol weithio gyda'i gilydd – ac yn aml-asiantaethol, er mwyn gallu delio â holl anghenion y plentyn. Rhaid iddynt gynnwys staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r gwasanaethau iechyd lleol, sy'n gweithio gyda'i gilydd i helpu'r bobl ifanc hyn. Lleolir y rhan fwyaf o dimau YOT mewn awdurdodau lleol. Mae rhai'n rhan annatod o wasanaethau awdurdod lleol fel y gwasanaethau plant; mae eraill wedi uno ar draws ffiniau awdurdodau lleol; ac mae rhai'n gweithredu ar eu pen eu hunain.

Penderfynir hyn yn lleol, ac o'n profiad ni nid oes un model ar ei ben ei hun wedi arwain at ganlyniadau arolygu da. Cyflawnir canlyniadau arolygu da drwy fod ag arweinwyr cyfiawnder ieuenctid cryf a gwybodus drwy'r Bwrdd Rheoli aml-asiantaeth a thîm rheoli'r YOT.

Mae gwaith timau YOT yn cael ei lywodraethu a'i dywys gan wahanol ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (fel y Safonau Cyfiawnder Ieuenctid Cenedlaethol) neu'n berthnasol ar draws y sector cyfiawnder troseddol (e.e. canllawiau Trefniadau Aml-asiantaethol Gwarchod y Cyhoedd).

# Atodiad 3: Disgrifiad o’r fethodoleg arolygu gwasanaethau ieuenctid

Yn y gwanwyn 2018 newidiasom y ffordd yr arolygwn. Dechreuwyd arolygu timau YOT yn erbyn cyfres newydd o safonau.


Mae’r safonau arolygu newydd hyn yn adlewyrchu disgwyliadau uchel y llywodraeth a’r cyhoedd o dimau YOT. Maen nhw’n seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a phrofiad ac yn canolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth. Heb fewnbwn (fel staff proffesiynol a gwasanaethau cynhwysfawr) a gweithgareddau (asesu achosion ac ymyriadau effeithiol) o ansawdd da, mae timau YOT yn llai tebygol o gyflawni eu hamcanion. Crynhoir fframwaith y safonau arolygu hyn yn y diagram isod, gyda disgrifiad mwy manwl ar ein gwefan. Mae ein dull o arolygu timau YOT yn cynnwys rhoi ffocws ar dair elfen ddarparu. Galwn y rhain yn barthau.

**Ffigwr x: Safonau a pharthau arolygu**



Mae parth un (darparu sefydliadol) yn ymwneud â pha mor dda y mae'r sefydliad yn cael ei arwain, ei reoli a'i sefydlu. Mae parthau dau a thri'n ymwneud ag ansawdd y gwaith mewn achosion unigol. Mae parth dau'n canolbwyntio ar ddedfrydau llys, a pharth tri ar ddedfrydau allan-o-lys. Mae parthau dau a thri'n ymwneud â'r disgwyliadau o dimau YOT: cynorthwyo ymatal rhag troseddu, amddiffyn y cyhoedd, a chadw'r plentyn neu berson ifanc yn ddiogel. Mae'r safonau darparu gwasanaeth yn y ddau barth yn seiliedig ar y model ASPIRE adnabyddus o oruchwylio achosion (Asesu, Cynllunio Dedfrydu, Gweithredu, Adolygu a Gwerthuso).

**Ffigwr 2: Y model ASPIRE**




### Sut y barnwn berfformiad

Barnwn berfformiad yn erbyn pob un o'r pedair safon ym mhob parth (fel y dangoswn uchod). Ar gyfer pob safon ym mharthau dau a thri, gofynnwn hyd at dri chwestiwn allweddol am ansawdd y goruchwylio gydag arolygwyr yn cofnodi pa ganran o'r achosion a adolygir ganddynt sy'n foddhaol yn erbyn y cwestiynau hyn. Yn y parthau, mae pob cwestiwn allweddol yn greiddiol i waith achosion effeithiol a rhaid rhoi sylw digonol i bob un ohonynt. Felly mae sgôr y safon yn cael ei benderfynu gan y cwestiwn allweddol sy'n cynhyrchu'r sgôr canrannol isaf o ran cyfran yr achosion sy'n cwrdd â'r maen prawf hwnnw. Mae ein safonau hefyd yn cynnwys 'rhwystr' y mae'n rhaid i bob corff a arolygwn fynd heibio iddo; lle mae'r asesiad o faterion diogelu plant yn anfoddhaol, rhaid rhoi dyfarniad o anfoddhaol ar gyfer asesu niwed.   Mae sgoriau lefel safonol yn rhoi darlun clir i ddarparwyr timau YOT o beth sy'n cael ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella.

Rhoddir sgôr cyffredinol ar raddfa pedwar pwynt i bob YOT: 'Rhagorol', 'Da', 'Angen gwella' ac 'Anfoddhaol'. Mae sgoriau o'r safonau unigol yn cael eu cyfuno i roi'r sgôr cyffredinol. Defnyddir rheolau sgorio i gynhyrchu sgôr cyffredinol yr YOT. Mae pob un o'r 12 safon yn

cael eu sgorio ar raddfa rhwng 0-3 fel a ganlyn: ‘Anfoddhaol’ = 0; ‘Angen gwella’ = 1; ‘Da’ = 2; a ‘Rhagorol’ = 3. Mae ychwanegu’r sgoriau hyn yn rhoi cyfanswm sgôr rhwng 0-36, wedi’i fandio i roi’r sgôr cyffredinol fel a ganlyn:

- 0–6 = ‘Anfoddhaol’
- 7–18 = ‘Angen gwella’
- 19–30 = ‘Da’
- 31–36 = ‘Rhagorol’.

Rhown sgôr cyffredinol i bob YOT oherwydd credwn fod rhoi sgôr cyfansawdd am bob arolygiad yn arwain at welliannau lle bo’u hangen. Mae sgôr cyffredinol yn rhoi mesur o ansawdd y gwasanaethau troseddwyr ifanc i gyd-fynd ag unrhyw fesurau allbwn a chanlyniad a osodir gan y llywodraeth. Cafodd y safonau a’r sgoriau eu datblygu dros gyfnod o 12 mis, drwy weithdai ac ymgynghori â rhanddeiliaid, academyddion a darparwyr. Ar y cyfan cawsant eu croesawu a’u derbyn fel meincnod ar gyfer ymarfer o ansawdd mewn darparu gwasanaethau.

# Atodiad 4: Tabl sgorio ar gyfer arolygiadau 2018-19 a 2019-20

Gallwch weld tabl sgoriau byw o'n harolygiadau o wasanaethau troseddwyr ifanc ar wefan Arolygiaeth Prawf EM.